

Cod Ymarfer er Lles Moch

Drafft ymgynghori

DRAFT

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	5
Diffiniadau.....	6
Adran 1 - Argymhellion sy'n berthnasol i bob mochyn	7
Crefft ffermio da byw a staffio	7
Y cynllun iechyd a lles	7
Rheoli clefydau a bioddiogelwch	8
Cynlluniau wrth gefn i ddelio â chlefydau ac argyfyngau eraill.....	9
 Archwilio	10
Trafod	11
Clymu	12
Llwytho, dadlwytho a chludo	13
Marcio	15
Monitro iechyd a lles anifeiliaid.....	16
Dangosyddion cyflwr	16
Ymladd ac Ymddygiad Ymosodol	16
Asesu cyflwr corff	17
Cloffni a briwiau ar y coes	17
Gofalu am anifeiliaid sâl ac wedi'u hanafu.....	18
Lladd ar y fferm.....	18
Defnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol a chadw cofnodion.....	19
Llety	20
Cyffredinol Lloriau.....	21
 Cyfoethogi'r amgylchedd	23
Awyru a thymheredd	25
Goleuo a lefelau sŵn.....	26

Cyfarpar awtomataidd a mecanyddol.....	27
Bwyd, dŵr a sylweddau eraill	27

Rheoli.....	30
Cyffredinol.....	30
Baedda naturiol, ffrwythloni artiffisial a fasdori	31
Anffurfio.....	32
Tocio cynffonnau	32
Rheoli a lleihau'r risg o frathu cynffonnau.....	34
Adnoddau.....	34
Mesurau amgylcheddol	35
Dangosyddion cyflwr... ..	36
Darganfod, monitro a rheoli moch sy'n brathu cynffonnau	36
Rhygnu/tocio dannedd.....	37
Ysbaddu.....	38

Adran 2 – Argymhellion penodol ychwanegol.... 39

Hychod porchella a pherchyll.....	39
Perchyll diddwyn a moch magu	41
Hychod sych a banwesod	42
Baeddod.....	43

Moch sy'n cael eu cadw mewn systemau

Awyr agored.....	45
Cyffredinol.....	45
Tylcau	45
Bwyd a dwr.....	46
Ffensio.....	46
Modrwyo trwynau (cwirso).....	46

Atodiad 1: Deddfwriaeth.....	47
Atodiad 2: Triniaethau a Ganiateir.....	49
Ffynonellau rhagor o wybodaeth.....	51

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod; y mae yn hytrach yn esbonio diben y cod a'r ystyriaethau bras y mae'n seiliedig arnynt.

Cod ar gyfer Cymru'n unig yw hwn. Mae'n cymryd lle y Cod Argymhelliad er Lles Da Byw: Moch a gyhoeddwyd yn 2004:

Nid yw'r testun cyfreithiol mewn blychau yn rhan o'r Cod; ei ddiben yw tynnu'ch sylw at y ddeddfwriaeth berthnasol. Y testun yn y blychau hyn oedd y gyfraith ar ddiwrnod cyhoeddi'r Cod (gweler y dudalen olaf i weld dyddiad ei gyhoeddi). Dylai perchenogion/ceidwaid ddeall y gallai'r gofynion cyfreithiol a nodir yn y blychau newid a dylen nhw gadarnhau eu bod yn ddatganiad cywir o'r gyfraith fel y mae adeg eu darllen. Gweler Atodiad 1 am restr o'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Cod hwn yn cael ei wneud o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r Ddeddf yn gwneud perchenogion a cheidwaid yn gyfrifol am sicrhau bod lles eu hanifeiliaid yn cael eu bodloni. Mae eu lles yn cynnwys yr angen i ddilyn patrymau ymddygiad naturiol; i gael bod gydag anifeiliaid eraill neu eu cadw ar wahân; eu hangen am amgylchedd a deiet addas a'r angen i gael eu diogelu rhag poen, anaf, dioddefaint a chlefyd.

Mae Adran 14(1) a (2) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

- 14 (1) The appropriate national authority may issue, and may from time to time revise, codes of practice for the purpose of providing practical guidance in respect of any provision made by or under this Act.
- (2) The authority responsible for issuing a code of practice under subsection (1) shall publish the code, and any revision of it, in such manner as it considers appropriate.

(3)

provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.

- (4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13—

- (a) failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind
- (b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

Y prif gyfreithiau y cyfeirir atyn nhw yn y Cod hwn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 a Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007. Efallai bod yna gyfreithiau a gofynion eraill (er enghraifft safonau organig a deddfwriaeth yn ymwneud â ffermio baeddod gwyllt) nad yw'r Cod hwn yn cyfeirio atyn nhw ond y dylai ffermwyr fod yn gyfarwydd â nhw a chadw atyn nhw yn ôl y gofyn. Gweler Atodiad 1 a 2.

Mae Adran 3(1) a (2) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

- 3 (1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.
- (2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.
- (3) For the purposes of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.
- (4) For the purposes of this Act, a person

shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

6 (1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir—

(a) peidio â gofalu am yr anifail onid yw'n gyfarwydd â'r cod ymarfer perthnasol a bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw person a gyflogir ganddo, neu a gymerir i weithio ganddo, yn gofalu am yr anifail oni bai bod y person arall hwnnw—

(i) yn gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol;

(ii) bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a

(iii) ei fod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y cod hwnnw.

(2) Yn yr adran hon, ystyr “cod ymarfer perthnasol” (“*relevant code of practice*”) yw cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu god ymarfer statudol a gyhoeddwyd o dan adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) mewn perthynas â'r rhywogaeth benodol o anifeiliaid a ffermir y mae'r person yn gofalu amdanynt.

rheini sy'n cadw moch i gynnal y safonau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Dylai perchenogion/ceidwaid sy'n gofalu am foch ddangos y canlynol:

- Cynllunio a rheoli ystyriol a chyfrifol;
- Ffermio da byw medrus, gwybodus a chydwybodol;
- Gofal wrth lwytho, dadlwytho a chludo; a
- Y gallu i ladd moch heb boen.

Ystyrir lles moch o fewn fframwaith a luniwyd gan Gyngor Lles Anifeiliaid Fferm, (neu'r Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm neu FAWC fel y'i gelwir bellach) ac sy'n cael ei adnabod fel y 'Pum Rhyddid

Y pum rhyddid yw'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer asesu lles anifeiliaid o fewn unrhyw system, ac ar gyfer cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu'u lles o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithiol. Dylen nhw gael eu hystyried ar y cyd â thair elfen hanfodol FAWC o grefft ffermio da byw.

Dyma'r Pum Rhyddid:

- 1. Rhyddid rhag eisiau bwyd a syched** – drwy allu mynd yn hwylus at ddŵr ffres a chael deiet sy'n cynnal iechyd ac egni;
- 2. Rhyddid rhag anghysur** – drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus;
- 3. Rhyddid rhag poen, anaf neu glefyd** – drwy eu hatal neu drwy gynnal diagnosis a rhoi triniaeth yn gyflym;
- 4. Rhyddid i fynegi ymddygiad normal** drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid o'r un fath;
- 5. rhyddid rhag ofn a gofid** – drwy ddarparu amodau a'u trin mewn ffordd sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

Bwriad y Cod hwn yw helpu pawb sy'n gofalu am foch i gadw at safonau da o ran crefft ffermio da byw wrth ddiogelu lles moch. Heb arfer y safonau uchel hynny, ni fydd byth modd diogelu lles anifeiliaid. Bydd dilyn yr argymhellion hyn yn helpu'r

Tair elfen hanfodol crefft ffermio da byw:

1. Gwybodaeth am hwsmonaeth anifeiliaid.

Gwybodaeth dda am fioleg anifeiliaid fferm a'r gofal sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys sut orau i ddiwallu eu hanghenion ym mhob sefyllfa.

2. Sgiliau hwsmonaeth

Prawf bod gennych sgiliau arsylwi a gofalu am anifeiliaid, trafod a thrin anifeiliaid a darganfod a datrys problemau.

3. Rhinweddau personol

Yn deall anifeiliaid ac ag empathi â nhw, ymroddiad ac amynedd.

Yn ystod eu harchwiliadau lles ar y fferm, bydd archwilwyr yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA, asiantaeth weithredol o dan Defra sy'n ysgwyddo swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol) ac Awdurdodau Lleol yn asesu a yw'r ffermwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac â'r Cod. Bydd yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a welwch yn y blychau yn y Cod hwn sy'n ymwneud â lles anifail. Mewn achosion sy'n mynd i'r llys, byddai p'un a ydych wedi cydymffurfio neu beidio â'r Cod yn cael ei ddefnyddio i helpu i benderfynu a ydych yn euog neu beidio.

Mae Adran 4(1) a (2) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

4 (1) A person commits an offence if—

- (a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
- (b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,
- (d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;
- (e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.

(c) the animal is a protected animal, and

(d) the suffering is unnecessary.

(2) A person commits an offence if— (a) he is responsible for an animal,

(b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,

(c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and

(d) the suffering is unnecessary.

(3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include—

(a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;

(b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;

(c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as—

(i) the purpose of benefiting the animal, or

(ii) the purpose of protecting a person, property or another animal;

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

Mae Adran 9(1) a (2) Deddf Lles Anifeiliaid
2006 yn datgan:

- 9(1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.
- (2) For the purpose of this Act, an animal's needs shall be taken to include:-
- (a) its need for a suitable environment,
 - (b) its need for a suitable diet,
 - (c) its need to be able to exhibit normal behaviour patterns,
 - (d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
 - (e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.

Fe welwch ffynonellau gwybodaeth eraill ar ddiwedd y Cod, gan gynnwys adran am foch "anwes" sy'n cael eu cadw mewn amgylchedd domestig. Mae'r ffynonellau gwybodaeth eraill hyn yn berthnasol i les moch, ond maen nhw er eich gwybodaeth yn unig ac nid ydynt yn rhan o'r Cod Ymarfer hwn.

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn gan Weinidogion Cymru.

DAETH Y COD LLES HWN I RYM AR
[DYDDIAD

Cyflwyniad

1. Mae'r Cod hwn (sy'n berthnasol i Gymru yn unig) yn ymdrin â phob mochyn fferm, gan gynnwys perchyll, p'un a ydyn nhw'n cael eu cadw i fridio, i'w magu a/neu i'w pesgi, p'un a ydyn nhw'n o deip "gwyllt" neu faeddod gwyllt sy'n cael eu cadw o dan amodau caeth ar fferm (neu arddangosfa / parc fferm), a ph'un a ydyn nhw'n cael eu cadw bob yn un neu'n nifer gyda'i gilydd. Bydd y Cod yn helpu perchenogion/ceidwaid moch i gydymffurfio â deddfwriaeth lles anifeiliaid, ond ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor gan filfeddyg neu gynghorydd technegol arbenigol. Hefyd, er bod llawer o ddarpariaethau'r Cod yn ymwneud yn benodol ag amgylchedd y fferm, gallai'r darpariaethau eraill fod yn werthfawr ac yn berthnasol i unrhyw un sy'n cadw moch, gan gynnwys moch "anwes".
2. Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn pennu'r amodau ar gyfer cadw pob anifail fferm, gan gynnwys moch (Atodlen 1), a rhaid cadw atyn nhw. Pennir hefyd amodau ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â chadw moch (Atodlen 8). Mae rhai o'r gofynion cyfreithiol penodol wedi'u hailadrodd yn y blychau yn y Cod hwn. Mae Cyngor Ewrop wedi gwneud argymhellion ynghylch moch hefyd. Os nad ydyn nhw eisoes wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth, rydym wedi'u nodi yn y Cod.
3. Hefyd, mae amodau ynghylch cofrestru moch yr Hen Fyd (teulu Suidae) fel baeddod gwyllt a moch dafadennog o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a allai fod yn berthnasol. Gallai deddfwriaeth arall (er enghraifft, eu lles adeg eu lladd, eu lles wrth eu cludo neu dagio anifeiliaid) fod yn berthnasol i les moch. Dylid mynd hefyd ar ofyn arbenigwyr, fel milfeddygon

neu gynghorwyr technegol arbenigol, am gyngor. Gweler Atodiad 1.

4. Mae'r deddfwriaeth lles anifeiliaid berthnasol yn gymwys i berchenogion yn ogystal ag i unrhyw un sy'n gyfrifol am fochyn, boed ar y fferm, wrth ei gludo (gan gynnwys llwytho a dadlwytho) ac yn y lladd-dy. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n gyfrifol am ofal y mochyn am gyfnod byr, gan gynnwys milfeddyg. Er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb dan sylw yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau o ran lles anifail, gallai contract ysgrifenedig ar gyfer staff parhaol a thrydydd partion sydd wedi'u contractio i wneud swyddogaethau penodol, fel lladd ar y fferm, fod yn ddefnyddiol. Er hynny, bydd y rhwymedigaethau sy'n cael eu gosod o dan y gyfraith yn dal yn gymwys, p'un a oes contract neu beidio. Gall agweddau penodol ar hwsmona da byw olygu peryglon i iechyd a diogelwch ceidwad y stoc. Ceir cyngor ar faterion o'r fath gan Arolygydd Diogelwch Amaethyddol y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.
5. Mae moch yn anifeiliaid chwilfrydig a chymdeithasol sy'n addasu'n rhwydd i amodau newydd, ond mae'n dal yn bwysig cadw golwg ofalus arnyn nhw wrth newid eu hamodau ar adegau gwahanol o'u bywyd. Gellir cadw moch o dan amrywiaeth o amodau magu, o'r awyr agored i unedau dan-do. Mae ceisio gofalu am les mochyn o dan yr amodau gwahanol hyn yn herio'r perchennog/ceidwad mewn ffyrdd gwahanol.
6. Dylai moch gael eu trafod mewn ffordd briodol a phositif o'u dyddiau cynharaf. Dylen nhw ymateb â chwilfrydedd i bobl, gan gynnwys y rheini nad ydyn nhw'n gyfarwydd â nhw. Ond dylen nhw ddim cael eu defnyddio i greu sioe neu wrthdystiad cyhoeddus os byddai hynny'n debygol o niweidio eu lles, gan gynnwys eu hiechyd. Yn ogystal â thrwyddedau symud, mae yna ofynion trwyddedu eraill wrth arddangos anifeiliaid i'r cyhoedd am resymau addysgol neu at ddiben diddanu fel rhan o fusnes.
7. Mae'n bwysig ystyried lles yr anifail cyn gosod cyfarpar newydd. Rhaid i'r system hwsmona a ddefnyddir a maint y genfaint fod yn briodol i'r math o fochyn a ddewisir ac i unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol ar y tir, gan

Cod Ymarfer er Lles Moch

gynnwys maint y fferm. Bydd yr amser sydd gan y staff a'u sgiliau a'u cymwyseddau i reoli'r system dan sylw hefyd yn dylanwadu ar hyn. Dylai dyluniad adeilad neu offer newydd neu newidiadau amgylcheddol neu reoli eraill bob amser anelu at gynnal neu wella lles y moch.

Diffiniadau

8. At bwrpas y Cod hwn, rydym wedi paratoi diffiniadau cryno o'r termau a ddefnyddir. Cymerir y mwyafrif o'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r lleill wedi'u cynnwys i esbonio pwrpas y Cod. Gallai arferion ffermio amrywio o ran oed, ond mae'r Cod yn dal yn berthnasol er hynny.

mochyn - anifail o unrhyw oed o rywogaeth sy'n perthyn i deulu'r moch, sy'n cael ei gadw at fridio, ei fagu a/neu ei besgi;

baedd - mochyn gwryw ar ôl aeddfedu'n rhywiol, i'w gadw at fridio;

banwes - mochyn benyw yn cael ei chadw at fridio sydd wedi aeddfedu'n rhywiol ond cyn geni perchyll, gweler **hesbinwch** hefyd;

hwch - mochyn benyw ar ôl geni'i pherchyll cyntaf;

porchella - neu **geni perchyll** - y broses o eni perchyll;

hwch sych - hwch ar ôl diddyfnu'i pherchyll ond cyn geni'r torraid nesaf;

porchell - mochyn rhwng ei eni a'i ddiddynfu;

mochyn diddwyn - mochyn ar ôl ei ddiddynfu hyd at 10 wythnos oed;

mochyn magu - mochyn o 10 wythnos oed hyd at ei ladd neu gael baedd;

Mochyn yr Hen Fyd - aelod o deulu'r moch (ac eithrio moch domestig *Sus scrofa domesticus*) gan gynnwys y baedd gwyllt a'r mochyn dafadennog;

perchennog neu **geidwad** - person sy'n gyfrifol am anifail, yn gofalu amdano neu'n berchen arno (yn barhaol neu dros dro), gan gynnwys staff a gweithwyr ar gontract;

'anffurfio' - triniaeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif neu strwythur esgyrn yr anifail nad yw'n rhan o driniaeth feddygol.

Adran 1 - Argymhellion sy'n berthnasol i bob mochyn

Dylech ddarllen yr adran hon gydag Adran 2 yn ôl y gofyn.

Crefft ffermio da byw a staffio

Mae Paragraff 1 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

1. Rhaid i anifeiliaid dderbyn gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.

9. Safon crefft ffermio da byw yw un o'r ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar les moch. Bydd gan geidwad da agwedd drugarog a thosturiol, y gallu i ragweld ac osgoi problemau lles posibl, a'r gallu i adnabod y

problemau lles hynny sy'n codi ac ymateb iddynt yn brydlon. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r uned fferm sicrhau bod y moch yn derbyn gofal gan staff brwd a chymwys. Cyn sefydlu neu ehangu unrhyw uned, mae'n bwysig gofalu bod lefel y grefft ffermio da byw yn ddigon uchel i ddiogelu lles y mochyn unigol.

10. Dylai pob perchennog/ceidwad fod wedi'i hyfforddi a bod yn gymwys. Rhaid iddynt fod yn gymwys i ddefnyddio unrhyw offer i wneud tasg benodol. Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r perchennog/ceidwad fynd ar gwrs perthnasol ar y fferm neu oddi arni, sy'n cael ei drefnu gan hyfforddwr neu gorff hyfforddi addas. Yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant arwain at achrediad ffurfiol o gymhwysedd mewn hwsmonaeth, iechyd neu les moch.
11. Dylid datblygu gwybodaeth a sgiliau penodol ar uned y fferm trwy:

weithio â stocmyn galluog sy'n brofiadol yn y system berthnasol. Tra o dan ofal pobl eraill a chyn cael bod yn gyfrifol ei hun am anifail, dylai perchennog/ceidwad ddangos fod ganddo'r cymhwysedd a'r ddealltwriaeth, gan gynnwys galluoedd ymarferol ar y fferm, i allu diogelu'r anifail o dan bob sefyllfa ragweladwy. Dylid cofnodi tasg benodol y mae angen asesiad cymhwysedd arni mewn cynllun iechyd a lles. Dylai pob perchennog/ceidwad wybod at bwy i droi pan ddeuir ar draws problem nad yw'n gwybod digon i allu ei datrys.

Y cynllun iechyd a lles

12. Rydym yn argymhell y dylai'r perchennog/ceidwad lunio cynllun iechyd a lles ysgrifenedig gyda milfeddyg ac unrhyw gynghorydd technegol y gallai fod ei angen, a'i roi ar waith. Dylai'r perchennog/ceidwad adolygu a diweddarau'r cynllun iechyd a lles yn rheolaidd. Dylai'r cynllun hefyd restru gweithgareddau iechyd a hwsmonaeth y cylch cynhyrchu a chynnwys cynlluniau i atal a thrin

afiechyd a chyfyngu arno. Dylai gynnwys hefyd strategaethau fel cofnodi a gwerthuso canfyddiadau ar y fferm ac yn y lladd-dy i atal a thrin problemau afiechyd a lles yn yr uned a chyfyngu arny'n nhw. Dylai'r cynllun gynnwys digon o gofnodion i'r perchennog/ceidwad allu asesu cynnyrch sylfaenol y genfaint a monitro lles y moch, gan gynnwys trwy ddangosyddion cyflwr anifeiliaid. Gweler paragraffau 46 i 48.

13. Gall gynhyrchwyr moch ddisgwyl cael eu harchwilio'n rheolaidd trwy gynlluniau annibynnol fel rhan o'u contract cyflenwi, yn ogystal â chan archwilyr y llywodraeth Dylid adnewyddu'r cynllun iechyd a lles gydol y flwyddyn er mwyn cofnodi canfyddiadau archwiliadau o'r fath, adroddiadau gan ladd-dai a ffynonellau cyngor dibynadwy. Mae fforymau trafod ar y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn lle da i rannu gwybodaeth ond gan nad ydyn nhw'n cael eu monitro, dylech gadarnhau cywirdeb y cyngor a roddir â milfeddyg neu gynghorydd technegol cyn gweithredu arno.

Rheoli clefydau a bioddiogelwch

14. Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n cadw moch gofrestru'r lle y mae'n eu cadw gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), p'un ai un mochyn sydd ganddo neu genfaint. Mae'n hanfodol gwybod ble yn union y mae ein holl dda byw yn cael eu cadw er mwyn gallu cymryd camau i reoli a dileu clefydau heintus sy'n ymddangos. Mae da byw mewn perygl os nad yw'r daliad wedi'i gofrestru. Gweler Atodiad 1.
15. Daw'r perygl mwyaf i iechyd y genfaint, o ran clefydau heintus, pan gaiff anifeiliaid eu symud i'r daliad. Mae'n amhosibl rhwystro pob haint sy'n cael ei gludo yn yr aer rhag dod i uned, ond wrth gynllunio safle newydd neu

ddefnyddio adeiladau at ddiben newydd, dylid ystyried cadw'r safle newydd a safleoedd sy'n bod eisoes mor bell ag sy'n bosibl oddi wrth ei gilydd, gan y byddai hynny'n lleihau risg lledaenu clefydau heintus sy'n cael eu cario yn yr aer. Mae cyfreithiau'n bod sy'n ymwneud â thagio moch, trefniadau cyn symud a rheoli symudiadau. Gweler Atodiad 1.

16. Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch chi i roi gwybod i'r awdurdodau yn syth os ydych yn credu bod clefyd hysbysadwy ar unrhyw anifail. APHA yw'r corff sy'n gorfod cael gwybod a byddai peidio â gwneud yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Gweler Atodiad 1. Dylai pob perchennog/ceidwad moch wybod arwyddion a symptomau clefydau hysbysadwy sy'n effeithio ar foch. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â milfeddyg.

17. Ystyr y term "bioddiogelwch" yw'r camau rheoli a'r mesurau ffisegol i leihau'r perygl o gyflwyno, sefydlu a lledaenu clefyd i'r genfaint, ohoni ac o'i mewn.

18. Dyma ganlyniadau mesurau bioddiogelwch da:

- a) cadw unedau fferm yn ddiogel rhag clefydau heintus;
- b) cadw'r perygl o ledaenu clefydau o fewn yr uned mor fach â phosibl; a
- c) lleihau'r perygl o ledaenu clefydau o un uned i'r llall neu le arall.

19. Gallwch sicrhau bioddiogelwch da drwy:

- a) dod â moch o nifer gyfyngedig o leoedd, bob un â statws iechyd uchel neu o leiaf â statws iechyd hysbys;
- b) sicrhau trefniadau cwarantyn priodol ar gyfer moch newydd sy'n dod i'r daliad. Dylai fod gan y perchennog/ceidwad gyfleusterau ynysu lle gall gadw golwg ar stoc newydd neu gynnal profion arnyn nhw am gyfnod addas ar ôl

iddyn nhw gyrraedd a chyn eu gadael i ymuno â gweddill y genfaint. Gweler Atodiad 1.

c) cyfyngu ar symudiadau cerbydau / offer / pobl sy'n dod i'r uned o'r tu allan a mynnu trefniadau glanhau a diheintio priodol, er enghraifft, glanhau'r cerbyd sy'n cael ei yrru i'r safle i ollwng stoc neu i gasglu stoc marw, gan gynnwys:

- i) cyfnodau priodol heb gysylltiad â moch i ymwelwyr a phrotocol pendant ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys llyfr ymwelwyr;
- ii) dylai cyfleusterau llwytho a lle medrir, biniau bwyd anifeiliaid a mannau casglu stoc marw fod ar gyrion yr uned

d) trefniadau rheoli/hwsmona da ar y fferm, gan gynnwys:

- i) gwahanu moch oed gwahanol –
- ii) rheoli moch - fesul uned neu fesul bloc siediau - 'Pawb i Mewn – Pawb allan' os medrir
- iii) mannau diheintio wrth fynedfa / allanfa pob sied / adran fagu;
- iv) gwahanu cyfrifoldebau staff i rannau penodol a/neu sicrhau trefniadau diheintio llym rhwng grwpiau oed gwahanol;
- v) cynllunio trefniadau rheoli pob dydd ar gyfer y mochyn ifanca i'r hena;

e) safonau hylendid da yn yr uned gyfan, gan gynnwys:

- i) disgrifio protocolau mewn cynllun iechyd a lles ar gyfer trefniadau hylendid a glanhau a diheintio (gan gynnwys golchi/diheintio dwylo) ar gyfer perchenogion/ceidwaid ac ymwelwyr wrth fynd o sied i sied;

- ii) trefniadau hylendid a diheintio trylwyr wrth weithio â moch, er enghraifft wrth eni/trin perchyll;
- f) rhaglenni atal clefydau gan gynnwys rhaglenni brechu a rheoli parasitiaid (gan gynnwys lladd llyngyr mewn anifeiliaid domestig ar y fferm allai beryglu moch); a
- g) rhaglen rheoli plâu yn y cynllun iechyd a lles i gyfyngu ar y cysylltiad rhwng moch a'u storfeydd bwyd â llygod ac ati, adar gwyllt, anifeiliaid gwyllt, cathod lledwyllt, anifeiliaid domestig (e.e. cŵn a chathod) a risgiau eraill.

Cynlluniau wrth gefn i ddelio â chlefydau ac argyfyngau eraill

- 20. Dylai'r cynllun iechyd a lles gynnwys cynlluniau i ddelio ag argyfyngau yn yr uned/safle, fel tanau; llifogydd, tywydd oer neu dwym iawn; gwaharddiadau dros dro ar symud moch o'r uned (er enghraifft, pan amheuir neu pan geir achos o glefyd hysbysadwy); toriad mewn cyflenwadau (er enghraifft, bwyd, dŵr, trydan) neu pan fydd offer yn torri ac nad oes modd eu trwsio ar unwaith. Dylai'r perchennog/ceidwad gael ei hyfforddi i allu defnyddio unrhyw offer a gynhwysir mewn cynllun argyfwng wrth gefn ac i allu ymateb mewn argyfwng, cystal ag y gall, i ddiogelu lles anifeiliaid.
- 21. Dylai cynlluniau wrth gefn ddelio â chlefydau endemig yn ogystal â chlefydau hysbysadwy yn yr uned a sut i ymateb i risg o glefyd mewn mannau eraill. Dylent gynnwys cyngor ar beth i'w wneud os oes gwaharddiad ar symud moch o'r safle (er enghraifft, clefyd hysbysadwy) ac os oes cyfyngiadau ar fynediad i rannau penodol o'r uned (er enghraifft, clefyd endemig neu achos sy'n effeithio ar ddiogelwch y bwyd). Pan gadarnheir bod clefyd hysbysadwy wedi taro moch neu dda byw eraill ger yr uned/safle, gallai'r gwaharddiad ar symud bara'n hir iawn.
- 22. Dylai cynlluniau wrth gefn esbonio sut i reoli gwaharddiadau tymor byr, er enghraifft, hyd at

wythnos neu ddwy wrth ymchwilio i glefyd neu ddigwyddiad yn yr uned neu ar fferm gerllaw, ac effaith cyfyngiadau tymor hir (dros fis) sy'n gysylltiedig â digwyddiad mwy difrifol. Dylai'r cynllun nodi safleoedd addas ar gyfer cadw anifeiliaid dros dro a lleoliad storfeydd bwyd a sarn (deunydd gorwedd) ychwanegol neu drefniadau rheoli slyri neu drefniadau ar gyfer lladd a chadw carcassau. Gallai cyfyngiadau mewn un lle effeithio hefyd ar fannau eraill cysylltiedig. Gweler Atodiad 1.

- 23. Dylid ystyried gosod larymau (er enghraifft rhag tanau neu doriad yn y trydan) y gellid eu clywed yn yr uned/safle a hefyd eu hanfon trwy ffonau symudol at aelodau staff ar ddyletswydd neu bobl eraill oddi ar y safle neu at bobl na fydden nhw'n gallu clywed larwm allanol. Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod rhywun ar gael i ymateb i larwm unrhyw bryd, ddydd a nos.
- 24. Y perchennog/ceidwad fydd yn gyfrifol o hyd am les anifeiliaid yn ystod unrhyw gyfnod o gyfyngu ar symudiadau neu argyfwng arall ar yr uned/safle. Dylid trafod unrhyw bryderon am les anifeiliaid yn ystod cyfnodau o'r fath â milfeddyg neu lle bo gofyn, dylid rhoi gwybod i'r APHA os bydd lles anifeiliaid yn dirywio.

Archwilio

Mae Paragraff 3 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

- 3. Pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad rhaid bod digon o oleuadau (naill ai sefydlog neu symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg:

Mae Paragraff 2 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

2. Rhaid i bob mochyn gael ei archwilio gan y perchennog neu berson arall sy'n gyfrifol am y moch o leiaf unwaith y dydd i sicrhau eu bod mewn cyflwr o lesiant.
25. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn dibynnu ar gael eu harchwilio'n rheolaidd gan y perchennog/ceidwad. Rhaid i bob mochyn gael ei weld o leiaf unwaith bob dydd. Ond ambell waith, bydd angen eu gweld yn amlach, er enghraifft hychod sydd ar fin neu newydd eni perchyll a moch mewn corlan filfeddygol.
26. Rhaid bod digon o olau i'r stoc allu cael eu harchwilio'n drylwyr. Dylai pob ceidwad fod yn gyfarwydd ag ymddygiad arferol moch. Mae'n hanfodol sylwi ar arwyddion cynnar o ofid neu afiechyd mewn moch unigol a phroblemau ymddygiad mewn moch mewn grŵp (er enghraifft, ymosodedd neu ymddygiad niweidiol arall). I wneud hyn yn effeithiol, mae'n bwysig bod gan y perchennog/ceidwad ddigon o amser i:
- a) archwilio'r stoc;
 - b) archwilio offer; a
 - c) delio ag unrhyw broblem, gan gynnwys cofnodi canfyddiadau a'r camau a gymerir. Gweler paragraffau 46 i 61.
27. Dylai'r perchennog/ceidwad gadw llygaid ar agor bob amser am arwyddion afiechyd neu broblemau lles yn y moch. Gallai'r arwyddion hynn gynnwys:
- a) mochyn yn cadw ei hunan ar wahân oddi wrth weddill y grŵp;
 - b) syrthni;
 - c) bogail, cadair neu gymalau wedi chwyddo;
 - d) anadlu cyflym neu afreolaidd;
 - e) peswch neu anadlu trwm cyson;
 - f) cryndod;
 - g) pothelli neu afliwio ar y croen;
 - h) colli graen;
 - i) tisian;
 - j) cloffni (mae'n arbennig o bwysig archwilio traed a choesau) a briwiau/chwydd yn y coesau;
 - k) colli cydsymudiad yn y cyhyrau;
 - l) rhwymedd;
 - m) dolur rhydd;
 - n) colli archwaeth am fwyd;
 - o) cyfogi;
 - p) anafiadau ar y corff gan gynnwys clwyfau, a chynffonau a fwlfau wedi'u brathu, a dangosyddion cyflwr eraill.
 - q) moch ymosodol a moch sy'n dioddef oherwydd ymosodedd moch eraill;
 - r) ymddygiad annormal gan gynnwys brathu clustiau, ystlysau a chynffonau;
 - s) mwy o farwolaethau na'r disgwyl yn y grŵp oed.
28. Dylai'r perchennog/ceidwad allu rhagweld problemau neu eu hadnabod yn fuan, ac yn aml, dylen nhw allu canfod yr achos a chywiro'r mater ar unwaith. Mae cofnodi digwyddiadau o'r fath yn ddigon manwl ar y pryd yn allweddol i fonitro, cloriannu ac adolygu newidiadau yn iechyd a lles y mochyn dros amser. Gweler hefyd baragraffau 12 ac 13.
29. Rhaid bod gan bob perchennog/ceidwad systemau trafod effeithlon a hwylus. Hynny er mwyn i foch allu cael eu symud, eu rheoli a'u

Trafod

trin mewn ffordd dawel a gofalus. Dylai moch gael eu symud o dan eu pwysau eu hunain gyda'r perchennog/ceidwad yn sefyll y tu ôl iddyn nhw. Mae moch yn symud rwyddaf mewn grwpiau bach lle maen nhw'n gallu gweld a chyffwrdd â'i gilydd. Dylid osgoi corneli miniog. Unwaith y bydd un mochyn yn symud, dylai'r lleill yn ei ddilyn.

30. Dylai'r siediau a'r llwybrau gael eu dylunio i helpu symudiad naturiol y moch yn hyn o beth felly. Dylid dylunio adeiladau newydd gan ystyried anghenion y moch wrth eu trafod a'u symud. Rhaid i berchenogion/ceidwaid sicrhau bod y lloriau a'r llwybrau i gyd mewn cyflwr da, ag iddynt arwyneb sydd ddim yn llithrig nac yn rhy arw rhaid anafu traed a choesau. Ni ddylai'r lloriau fod yn rhy serth rhag cynyddu'r perygl o lithro ac o anaf. Gweler paragraffau 36 i 38 a 76 a 77.

31. Wrth ddylunio system i helpu llif y moch, dylech ystyried y canlynol:

- a) pasejis o'r un lled, gyda digon o le yn ddelfrydol i ddau fochyn allu cydgerdded ochr yn ochr. Dylai fod digon o le hefyd i'w troi i wynebu'r ffordd arall;
- b) pasejis hir gydag ond ambell dro - er mwyn i'r moch allu gweld ei gilydd a dilyn ei gilydd yn dawel ac yn bwylllog;
- c) y waliau a'r lloriau o'r un defnydd a lliw - ac yn ddelfrydol yn rhy uchel i'r moch allu gweld unrhyw beth arall heblaw'r pasej y maen nhw'n cerdded ar ei hyd; a
- d) goleuadau cyson ar hyd y ffordd.

32. Gall y canlynol darfu ar symudiad moch a dylech eu hosgoi: a) gwrthrychau'n fflapio;

- b) gwrthrychau disglair;
- c) golau a chysgod am yn ail gan gynnwys adlewyrchiad pelydrau ar gysgod

d) sŵn annisgwyl;

e) symudiadau sydyn gan y perchennog/ceidwad;

f) pasej sy'n culhau; a

g) troeon niferus sy'n rhwystro'r moch rhag gweld a chyffwrdd yn ei gilydd wrth iddyn nhw symud.

33. Mae moch yn gallu gweld o'u blaenau a thu ôl a bydd gwrthrychau newydd, symudiadau sydyn, newidiadau yn y golau a sŵn annisgwyl yn codi ofn. Peidiwch â defnyddio gormod o fôn braich. Nid yw'n dderbyniol bwrw/taro na chicio mochyn. Peidiwch â phwyso ar unrhyw ran o gorff y mochyn, yn enwedig ei wyneb, ei swch neu ei fol. Dylech ddefnyddio byrddau i gael y mochyn i fynd i'r cyfeiriad iawn ac i gau allanfeydd/bylchau ar y ffordd - rhaid gofalu nad oes iddo ochrau miniog. Gweler hefyd paragraffau 36 i 38 a 73 i 75.

Mae Paragraff 30 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

30. Rhaid peidio â defnyddio cerrynt trydan ar unrhyw anifail er mwyn ei lonyddu.

34. Mae'n anghyfreithiol parlysu anifail â thrydan i'w lonyddu.

35. Peidiwch â defnyddio procwyr trydan. Mae dyluniad addas i'r sied a'r pasejis a sgiliau'r perchennog yn fwy defnyddiol
Ceir gofynion cyfreithiol ychwanegol wrth lwytho / dadlwytho. Gweler paragraffau 36 i 38.

Clymu

Mae Paragraffau 3, 4 a 5 (2) (a) ac (e) o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

3. Ni chaiff unrhyw berson sy'n gyfrifol am fochyn roi tennyn na pheri rhoi tennyn arno ac eithrio pan fo o dan archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at unrhyw ddiben milfeddygol.
4. (1) Pan ganiateir defnyddio tenynnau yn unol â pharagraff 3, rhaid iddynt beidio â pheri anaf i'r moch a rhaid eu harolygu'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(2) Rhaid i bob tennyn fod yn ddigon hir i ganiatáu i'r moch symud fel y nodir ym mharagraff 5(2)(a) a (d) a rhaid i'r dyluniad fod yn gyfryw fel y bydd yn osgoi, cyn belled â phosibl, unrhyw risg o dagu, poen neu anaf.
5. (2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn —

(a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;

(d) cael digon o le fel y gall yr holl anifeiliaid orwedd ar yr un pryd.

- c) rhoi gwybod yn electronig am symudiadau cyn y daith
 - d) rhaid i'r cerbyd a ddefnyddir ar gyfer teithiau hir gael ei gymeradwyo;
 - e) gofynion ar gyfer hyfforddi gyrwyr ac awdurdodi lorïau;
 - f) gofynion i logio teithiau hir i wlad arall; a
 - g) dogfennau sydd eu hangen ar bob taith.
37. Ceir gofynion ychwanegol ar gyfer symud moch ar gyfer eu lladd. Rhaid llenwi ffurflen wybodaeth am y gadwyn fwyd, fydd yn cynnwys manylion iechyd y moch, a chyfnod cadw unrhyw foch sydd wedi'u trin o'r gadwyn fwyd. Gweler paragraff 66.
38. Pan fydd perchennog/ceidwad yn defnyddio'i drafnidiaeth ei hun, bydd angen iddo sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddf lles anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Os bydd y perchennog/ceidwad yn contractio cludiant oddi wrth drydydd parti, y perchennog/ceidwad fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn defnyddio cludwyr sy'n amlwg gymwys a dibynadwy. Mater i'r cludwr fydd sicrhau ei fod yn ateb yr holl ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chludo moch. Wrth lwytho neu ddadlwytho yn y man gadael, wrth fan trosglwyddo neu ym mhen y daith, bydd y perchennog/ceidwad a chludwr y moch yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfleusterau llwytho a dadlwytho'n briodol, bod y moch wedi'u hadnabod yn gywir a bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio.

Llwytho, dadlwytho a chludo

36. Mae nifer o ddarnau o gyfraith yn gosod rheolau manwl ynghylch cludo a symud moch i ac o'r fferm. Dylai perchenogion/ceidwaid fod yn gyfarwydd â nhw. Gweler Atodiad 1. Maen nhw'n ymdrin â'r canlynol:
- a) ffitrwydd y mochyn ar gyfer y daith dan sylw;
 - b) cyfleusterau llwytho a dadlwytho, gan gynnwys y rhai ar y fferm;

Mae Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 1/2005, Atodiad I (Rheolau Technegol), Pennod III (Arferion Cludo) yn datgan:

Facilities and procedures

1.3. Facilities for loading and unloading, including the flooring, shall be designed, constructed, maintained and operated so as to:

(a) prevent injury and suffering and minimise excitement and distress during animal movements as well as to ensure the safety of the animals. In particular, surfaces shall not be slippery and lateral protections shall be provided so as to prevent animals from escaping;

(b) be cleaned and disinfected.

1.4. (a) Ramps shall not be steeper than an angle of 20 degrees, that is 36,4 % to the horizontal for pigs, calves and horses and an angle of 26 degrees 34 minutes, that is 50 % to the horizontal for sheep and cattle other than calves. Where the slope is steeper than 10 degrees, that is 17,6 % to the horizontal, ramps shall be fitted with a system, such as provided by foot battens, which ensure that the animals

1.9. The use of instruments which administer electric shocks shall be avoided as far as possible. In any case, these instruments shall only be used for adult bovine animals and adult pigs which refuse to move and only when they have room ahead of them in which to move. The shocks shall last no longer than one second, be adequately spaced and shall only be applied to the muscles of the hindquarters. Shocks shall not be used repeatedly if the animal fails to respond.

1.11. Animals shall not be tied by [...] the nose rings nor by legs tied together. [...]

When animals need to be tied, the ropes, tethers or other means used shall be

(a)

(b) such as to allow the animals, if necessary, to lie down and to eat and drink;

(c) designed in such a way as to eliminate any danger of strangulation or injury, and so as to allow animals to be quickly released.

prosesu mewn lladd-dy); a rhaid iddynt barhau'n sownd wrth y mochyn heb ei anafu. Os ydy'r clustiau'n cael eu marcio trwy eu nodi neu eu pwnsio at ddiben rheoli'r genfaint, rhaid defnyddio offer priodol.

Marcio

39. Rhaid rhoi marc parhaol ar foch sy'n 12 mis oed neu'n hŷn, er mwyn iddyn nhw allu cael eu symud o'r daliad. Bydd angen rhoi marc parhaol ar foch o dan 12 mis oed sy'n cael eu symud o ddaliad i ladd-dy, i farchnad neu i sioe neu sy'n cael eu symud er mwyn eu hallforio (i'r UE neu'r tu hwnt). Gellir rhoi marc dros dro ar bob mochyn o dan 12 mis oed sy'n cael ei symud o'r daliad i bob lle arall, gan gynnwys rhwng ffermydd.

40. Rhaid i dagiau clust sy'n cael eu defnyddio at y diben hwn ateb yr holl ofynion cyfreithiol. Rhaid eu bod yn gallu gwrthsefyll eu hymyrryd; yn amhosibl eu haildefnyddio, yn hawdd eu darllen; wedi'u gwneud o fetel a/neu blastig; yn gallu gwrthsefyll gwres (wrth eu

41. Os rhoddir marc parhaol ar fochyn trwy dag clust neu datŵ, bydd y person sy'n ei osod wedi'i hyfforddi ac yn gymwys, ac yn defnyddio offer mewn cyflwr da o dan amodau hylan ac yn unol â'r gyfraith. Bydd unrhyw ffurf ar farcio sy'n tyllu neu'n torri'r croen yn anffurfiad sy'n achosi poen. Dylid ystyried yn ofalus a oes gwir angen trefniadau marcio ychwanegol. Rhaid bod gweithdrefn wedi'i chaniatáu er mwyn cael ei chynnal. Gweler Atodiad 1 a 2.

42. Rhaid defnyddio pinsiwrns tatŵio i datŵio'r glust, rhaid defnyddio offer sy'n defnyddio aer cywasgedig i datŵio'r ysgwydd (er mwyn bwrw'r pinnau tatŵio trwy groen y mochyn) a rhaid defnyddio'r offer priodol i osod slapfarc ar bob ysgwydd
- Ni ddylid tatŵio mochyn ond at ddiben ei adnabod neu ei reoli ac ni ddylid gwneud mwy nag sydd ei angen i allu adnabod y mochyn. Mae'n anghyfreithlon rhoi tatŵ addurniadol ar groen mochyn byw. Gweler paragraff 41.
43. Wrth dagio clust neu roi tatŵ â phinsiwrns tatŵio, dylech ofalu bod yr anifail wedi'i ffrwyno'n briodol. Cymerwch ofal i leoli a gosod tagiau yn gywir gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan osgoi'r prif wythiennau a rhimynnau cartilag.
44. Gallwch slapfarcio mochyn o unrhyw oed, cyn belled â bod y marc yn ateb y gofynion cyfreithiol a ddisgrifir ym mharagraffau 39, 41 a 42.
45. Gofalwch mai dim ond aerosol neu baent diwenwyn sy'n cael ei ddefnyddio i roi marciau dros dro a gofalwch eich bod yn osgoi'r wyneb a rhannau eraill sensitif y corff.
47. Dylai unrhyw ddangosyddion cyflwr sy'n cael eu monitro a'u cofnodi fod yn rhai ymarferol a hawdd eu mesur a dylent ddangos lles y mochyn. Nid yw pob un o'r dangosyddion yn newydd a dylen nhw fod yn gyfarwydd, er enghraifft asesu cyflwr corff, cloffni a marwolaethau ar y fferm. Dylai'r dangosyddion eraill, gan gynnwys glendid, tystiolaeth o ymladd fel marciau ac anafiadau ar rannau arbennig o'r corff (er enghraifft y clustiau a'r cynffon), hefyd gael eu cofnodi a'u defnyddio fel arwydd o les y mochyn. Os ceir graddfeydd o ddifrifoldeb er enghraifft arwyddion bach i ganolog i ddifrifol o frathu cynffonnau, yna dylid ystyried dyfeisio system sgorio y gall yr holl staff ei defnyddio.
48. Dylid cytuno â'r milfeddyg pa ddangosyddion cyflwr y dylid eu mesur ar uned y fferm/safle. Mae'n bosib y bydd cynlluniau preifat a chontractau cyflenwi'n nodi gofynion ychwanegol a gellid gofyn i filfeddyg neu gynghorydd y cynllun am ei help yn hyn o beth. Dylid nodi'r dangosyddion, y dulliau asesu a pha mor aml y dylid eu cofnodi mewn cynllun iechyd a lles. Dylai pob perchennog/ceidwad wybod yn glir pwy sy'n gyfrifol am gofnodi beth ym mhob archwiliad. Efallai y gallai marchnadoedd a lladd-dai roi rhagor o wybodaeth am iechyd a lles y moch.

Monitro iechyd a lles anifeiliaid Dangosyddion cyflwr

46. Mae llawer o'r safonau lles yn seiliedig ar "wneud pethau", er enghraifft, dyletswyddau rheoli a threfniadau hwsmona pob dydd neu adnoddau'n sy'n cael eu darparu gan y perchennog/ceidwad i'r anifail fel cysgod, bwyd a dŵr. Mae llawer o'r "mewnbynnau" hyn yn cael eu disgrifio fel safonau gofynnol y gyfraith ac mae'r Cod cyfan yn ymdrin â nhw. Ond mae rhai dangosyddion o gyflwr yr anifail yn gallu rhoi darlun gwell inni o effaith uniongyrchol y mewnbynnau ar foch unigol ac ar y genfaint gyfan. Dylai hynny hoelio sylw perchenogion/ceidwaid, milfeddygon a chynghorwyr arbenigol eraill sy'n gysylltiedig â'r fferm, ar brif broblemau cenfaint arbennig.

Rhestrir rhai o'r dangosyddion cyflwr mwyaf cyffredin yn y paragraffau canlynol.

Ymladd ac ymddygiad ymosodol

Mae Paragraff 8 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

8. (1) Os cedwir moch gyda'i gilydd, rhaid cymryd mesurau i atal ymladd sy'n mynd y tu hwnt i ymddygiad normal.
- (2) Rhaid i foch sy'n dangos eu bod yn gyson ymosodol tuag at eraill neu'n dioddef ymosodiadau o'r fath gael eu gwahanu oddi wrth y grŵp.

49. Er bod ymladd yn ymddygiad naturiol, bydd cadw moch rhag ymladd â'i gilydd yn arwain at fanteision cynhyrchu yn ogystal â gwella eu lles. Er mai corlannau neu offer o ddyluniad gwael fydd efallai wedi achosi rhai anafiadau, bydd rhai wedi'u hachosi gan yr ymladd. Gall marciau neu grafiadau ar rannau gwahanol y mochyn helpu i esbonio achos yr ymddygiad ymosodol rhwng moch.

50. Mae'r ymosodedd, yr ofn a'r clwyfau sy'n gysylltiedig ag ymladd yn effeithio'n ddrwg ar les y moch dan sylw. Gall nifer o ffactorau achosi ymosodedd rhwng grwpiau o foch, gan gynnwys rhwng hychod a baeddod. Bydd cyflwyno moch neu gymryd moch o grŵp yn effeithio ar hierarchaeth a strwythur cymdeithasol y grŵp, gan arwain at beth ymladd er mwyn sefydlu trefn hierarchaidd newydd. Rhaid cymryd camau cyflym i wahanu moch os gwelir ymladd ffyrnig iawn neu anafiadau neilltuol o gas. Os gellir eu hadnabod, dylid cymryd moch cyson o ymosodol o'r grŵp ar unwaith a rhaid symud moch sy'n cael eu hanafu'n dost i gorlan filfeddygol iddynt gael eu trin a chael gwella, neu eu lladd heb boen. Gweler Atodiad 1 a pharagraffau 166 i 168.

51. Gallai moch ymosod ar ei gilydd hefyd wrth gystadlu am fwyd neu ddŵr. Dylai pob mochyn yn y gorlan allu mynd yn rhwydd felly at fwyd a dŵr. Gweler paragraffau 103 i 113.

52. Gallai ymladd rhwng moch a gwella o glwyfau leihau lefelau cynhyrchiant (gan gynnwys y rhai ymosodol) ac arwain at gyfraddau trosi bwyd gwael.

Asesu cyflwr cyrff

53. Mae sgorio cyflwr (BCS) yn ffordd effeithiol o fesur iechyd a lles hwch. Mae sgorio cyflwr yn ffordd hawdd i berchenogion/ceidwaid moch asesu storfa wrth gefn (h.y. y gorchudd cyhyrau a braster) cyrff moch unigol ac yn help i fonitro ac addasu trefniadau bwydo a rheoli'n well. Gellir asesu moch i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n rhy dew neu'n rhy denau ac i ofalu am hychod a banwesod yn briodol trwy'r cylch bridio. Dylai fod gwybodaeth glir yn y cynllun iechyd a lles o'r sgôr cyflwr y

gellid ei ddisgwyl ar adegau gwahanol yn nhw a chyflwr ffisiolegol mochyn, gan gynnwys pryd i sgorio cyflwr a pha mor aml.

54. Gallai tystiolaeth bod cyflwr y corff yn wael er newid y lefelau bwydo fod yn arwydd o afiechyd, problemau maeth neu ddŵr neu broblem ymddygiad y dylid ymchwilio iddyn nhw. Os nad oes modd esbonio cyflwr gwael, dylech holi'ch milfeddyg. Dylai fod gennych brotocol clir ar gyfer trin moch cronig a di-raen yn y genfaint, gan gynnwys eu lladd heb boen. Byddai'n arfer drwg symud y moch hyn i grŵp o foch iau gan y gallai hynny fod yn ffordd o ledaenu clefydau.

Cloffni a briwiau ar y coesau

55. Mae cloffni neu anaf/briwiau yn y goes mewn unrhyw anifail yn arwydd fel arfer ei fod mewn poen. Gall gael effaith ddrwg ar gynhyrchiant moch sy'n tyfu neu'n bridio, yn enwedig os yw'n effeithio ar eu harchwaeth neu eu gallu i fynd at fwyd. Dylid cadw golwg fanwl ar fanwesod am arwyddion o gloffni gan y gall ansawdd a swm y maeth ar adegau penodol o'u tyfiant gael effaith fawr ar yr achosion o gloffni a geir mewn stoc cadw at fridio.

56. Mae'n bwysig cofnodi cloffni a briwiau ar goesau'n fanwl, gan nodi oed y mochyn, math o friwiau neu gloffni a lleoliad corlan y mochyn. Os gwelir bod canran dda o'r genfaint yn dioddef, dylech gael hyd i'r achos a gofyn barn milfeddyg yn brydlon.

57. Nid yw moch sydd ddim yn gallu cerdded heb boen a moch sydd â briwiau agored difrifol neu brolaps yn cael eu hystyried yn ffit i deithio. Gall anifeiliaid sâl neu wedi'u hanafu gael eu hystyried yn ffit i deithio os ydy'r anaf neu'r salwch yn fach ac na fyddai'r daith yn achosi rhagor o ddioddefaint: os nad ydych chi'n siŵr, holwch filfeddyg. Os nad yw anifail cloff yn ymateb i driniaeth ar ôl ichi gael cyngor milfeddyg, rhaid ei ladd heb boen ar y fferm cyn gynted â phosibl yn hytrach na'i adael i ddioddef. Gweler paragraffau 62 i 66.

Gofalu am anifeiliaid sâl ac wedi'u hanafu

Mae Paragraffau 5 a 6 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

5. Heb ragfarnu paragraff 11(3) o Atodlen 5A, rhaid gofalu yn briodol ac yn ddi-oed am unrhyw anifeiliaid sy'n ymddangos yn sâl neu wedi eu hanafu; pan nad ydynt yn ymateb i'r cyfryw ofal, rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted ag y bo modd.
 6. Os oes angen, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych, lle bo hynny'n briodol.
58. Dylech gymryd camau ar unwaith os oes gennych fochyn sy'n ymddangos yn sâl neu wedi'i anafu. Dylech gysylltu â'ch milfeddyg os oes gennych unrhyw amheuan ynghylch achos yr afiechyd neu ynghylch y driniaeth orau, gan gynnwys mesurau i leddfu poen. Mae'n bwysig cadw golwg reolaidd ar ymateb y mochyn i'r driniaeth ac os nad yw'n gwella, dylech holi'r milfeddyg cyn gynted ag y medrwch. Os oes angen, rhaid i'r perchennog/ceidwad drefnu bod y mochyn yn cael ei ladd heb boen.
 59. Dylai'r cynllun iechyd a lles ddisgrifio'r drefn ar gyfer ynysu a gofalu am anifeiliaid sâl neu wedi'u hanafu. Dylai corlannau milfeddygol fod ar gael ar gyfer pob categori o fochyn yn yr uned. Dylech gadw golwg ar yr anifeiliaid hyn yn rheolaidd gydol y dydd. Pan fyddwch yn symud moch sâl neu wedi'u hanafu i'r gorlan filfeddygol, dylai'r perchennog/ceidwad wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n dioddef yn ddiangen. Dylai fod dŵr ar gael iddyn nhw bob amser ynghyd ag offer bwydo y gall pob mochyn fynd ato.
 60. Dylid rhoi digon o wellt neu sarn o dan anifeiliaid cloff neu orweiddiog rhag iddyn nhw ddatblygu briwiau pwyso. Gallech ystyried defnyddio mat rwber yn lle gwellt neu sarn. Mae angen gofal arbennig os ydy'r anifail gorweiddiog wedi'i ynysu i gadarnhau ei fod yn bwydo ac yfed.

61. Dylid rhoi marc adnabod dros dro ar anifail adeg rhoi triniaeth iddo er mwyn i driniaethau milfeddygol gael eu cofnodi yn erbyn yr anifail unigol ac er mwyn ei fonitro yn ystod ei amser yn y gorlan filfeddygol. Dylid creu protocolau ar gyfer penderfynu pryd i ladd, yn enwedig moch gorweiddiog. Os nad yw'r anifail yn ymateb i driniaeth ac nad yw'n ffit i deithio, rhaid ei ladd heb boen ar y fferm. Dylid lladd unrhyw anifail sydd mewn poen neu nad oes gwella arno cyn gynted â phosibl. Gweler paragraffau 62 i 66.

Lladd ar y fferm

62. Dylai'r cynllun iechyd a lles esbonio'r dulliau arferol o ladd anifeiliaid a phwy fyddai'n gyfrifol am wneud. Dylai esbonio hefyd y drefn wrth gefn os na fydd y bobl hynny ar gael, fel cael gweithiwr trwyddedig o ladd-dy neu filfeddyg i wneud y gwaith cyn gynted â phosibl.
63. Rhaid lladd yr anifail heb boen gan ddefnyddio dull sy'n ei daro'n anymwybodol yn syth tan ei fod yn marw. Os ydy moch yn cael eu lladd yn rheolaidd ar y fferm, rhaid peidio â'u lladd ag ergyd anfecanyddol i'r pen. Mae ergyd mecanyddol i'r pen yn ei stynio a rhaid wedyn defnyddio un o'r dulliau lladd fel gwaedu.
64. Os bydd yn rhaid lladd mochyn mewn argyfwng, er enghraifft, am ei fod wedi'i anafu neu am fod clefyd arno sy'n achosi poen difrifol neu am ei fod yn dioddef poen nad oes modd ei leddfu, yna caniateir unrhyw ddull lladd cyn belled â bod yr anifail yn osgoi poen, gofid a dioddefaint diangen a'i fod yn cael ei ladd cyn gynted â phosibl. Rhaid ei archwilio i wneud yn siŵr nad oes unrhyw arwydd o fywyd. Rhaid qwneud hyn gan rywun sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol ac sy'n gymwys i ddefnyddio'r dull lladd a ddewisir a'r offer i wneud hynny. Mewn argyfwng, nid oes angen trwydded Lles wrth Ladd, ond fe fyddai'n dda ei chael. Os ydych yn lladd moch yn rheolaidd ar y fferm, fe fydd angen trwydded Lles wrth Ladd oni bai'ch bod wedi'ch eithrio am un o'r rhesymau prin iawn a ganiateir.

65. Ar ôl i'r mochyn farw neu gael ei ladd, rhaid cael gwared ar y carcass yn gyflym trwy ddull addas a chofnodi'r farwolaeth. Wrth aros i gael gwared ar y carcass, rhaid ei storio mewn cynhwysydd nad yw'n gollwng ac na all cathod, cŵn nac anifeiliaid gwyllt fynd i mewn iddo. Mae cynnyrch geni, perchyll marw-anedig, ffetysau a brych i gyd yn sgil-gynnyrch anifeiliaid sy'n dod o dan y ddeddf. Gweler Atodiad 1.

66. Ni chaniateir cludo anifail oni bai ei fod yn ffit i deithio ac yn ddigon iach i ddygymod â'r daith gyfan (gan gynnwys llwytho, dadlwytho a'r egwyl yn ystod y daith). Rhaid i anifail sâl neu anafus gael ei gludo o dan oruchwyliaeth milfeddyg ar gyfer neu ar ôl triniaeth neu ddiagnosis milfeddygol. Ceir gofynion cyfreithiol llym o ran cludo anifeiliaid sydd â salwch bach neu anaf mân. Os nad ydych yn siŵr, holwch filfeddyg, gan ofyn am archwiliad clinigol os oes angen, cyn cludo'r anifail. Os ydy'r moch yn cael eu cludo i'w lladd ar gyfer eu bwyta gan bobl, efallai y bydd yn rhaid ateb gofynion ychwanegol a dylai'r milfeddyg sy'n bresennol yn y lladd-dy ar y diwrnod dan sylw gytuno arnyn nhw. Gweler hefyd baragraffau 37 a 57 ac Atodiad 1.

Defnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol a chadw cofnodion

67. Dylai unrhyw gynllun iechyd a lles moch sydd wedi cael sêl bendith milfeddyg ganolbwyntio ar atal clefydau trwy brotocolau bioddiogelwch, hylendid a brechu.
68. Ni ddylid defnyddio gwrthfotigau fel triniaeth bob dydd, dim ond ar gyfer trin, rheoli neu atal clefyd o dan bresgripsiwn milfeddyg pan fydd clefyd neu haint benodol wedi'i darganfod.
69. Dylid trin llyngyr ac ectoparasitiaid yn unol â chynghor y milfeddyg fel y'i disgrifir mewn cynllun iechyd a lles. Dim ond milfeddyginiaethau sydd wedi'u hawdurdodi yn y DU y caniateir eu defnyddio a rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Unrhyw beth yn wahanol, rhaid cael caniatâd y milfeddyg.

70. Rhaid cadw cofnod llawn o'r meddyginiaethau a ddefnyddir, yn unol â'r ddeddfwriaeth ar feddyginiaethau ar gyfer anifeiliaid cynhyrchu bwyd. O dan ddeddfwriaeth lles, rhaid cadw'r cofnodion hyn am o leiaf dair blynedd. Ceir gofynion cyfreithiol eraill ar gyfer cofnodion meddyginiaethau o dan ddeddfwriaeth anifeiliaid cynhyrchu bwyd. Gweler Atodiad 1.

Mae Paragraffau 7 a 8 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

7. Rhaid cadw cofnod –

(a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roddir i anifeiliaid; a

(b) o'r nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o'r anifeiliaid a gyflawnir yn unol ag unrhyw un o'r darpariaethau canlynol

[...]

(iii) yn achos moch, paragraff 2 o Atodlen 8:

8. Rhaid cadw'r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad, a rhaid ei roi ar gael i arolygydd os gofynnir amdano.

71. Dylai'r cofnodion meddyginiaethau fod ar gael i archwilydd y llywodraeth neu awdurdod lleol eu gweld unrhyw bryd. Os ydy'r cofnodion yn cael eu cadw ar gyfrifiadur neu ar-lein, rhaid i'r perchennog/ceidwad allu creu copi os bydd yr archwilydd yn gofyn amdano. Gweler Atodiad 1.
72. O ran rheoli anifail unigol a chadw golwg ar broblemau iechyd y genfaint, gallai fod yn ddefnyddiol cofnodi'r rhesymau dros roi triniaeth, fel mastitis, cloffni ac anhwylderau eraill. Lle gwelir yr un problemau dro ar ôl tro, dylai'r perchennog/ceidwad gytuno ar brotocolau rheoli a thrin gyda'r milfeddyg a'u

hychwanegu at y cynllun iechyd a lles. Gweler hefyd brotocolau 46 i 61.

Llety

Mae Paragraffau 5 a 6 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

5. (1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.
- (2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn –
- (a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;
- (b) cael lle y gall orffwyso ynddo sy'n lân, yn gysurus ac wedi ei ddraenio'n ddigonol;
- (c) gweld moch eraill, ac eithrio—
- (i) pan fo'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol; neu
- (ii) yn ystod yr wythnos cyn yr amser porchella disgwyledig ac yn ystod porchella, pan ganiateir cadw hychod a banwesod o olwg moch eraill;
- (d) cynnal tymheredd cysurus; a
- (e) cael digon o le fel y gall yr holl anifeiliaid orwedd ar yr un pryd.

6. (1) Rhaid i ddimensiynau unrhyw gôr neu gorlan fod yn gyfryw fel nad yw'r arwynebedd mewnol yn llai na hyd y mochyn wedi ei sgwario, ac nad yw unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, ac ymhob achos mesurir hyd y mochyn o flaen ei drwyn hyd at fôn ei gynffon tra bo'n sefyll â'i gefn yn syth

- (2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i fochyn benyw am y cyfnod sy'n cychwyn saith diwrnod

cyn y diwrnod y disgwylir iddi borchella ac yn diweddu pan fydd diddyfnu ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll a faethir ganddi), wedi'i gwblhau.

- (3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i fochyn a gedwir mewn côr neu gorlan—
- (a) tra bo o dan unrhyw archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at ddibenion milfeddygol;
- (b) at ddibenion serfio, ffrwythloni artiffisial neu gasglu semen;
- (c) tra bo'n cael ei fwydo ar unrhyw achlysur arbennig;
- (d) at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwysu;
- (e) tra bo'i llety yn cael ei lanhau; neu
- (f) tra bo'n aros i'w lwytho ar gyfer ei gludo,

ar yr amod nad yw'r cyfnod y cedwir y mochyn felly yn hwy nag y bo'i angen at y diben hwnnw.

- (4) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i fochyn a gedwir mewn côr neu gorlan y gall y mochyn fynd i mewn iddo neu ei adael fel y myn, ar yr amod yr eir i mewn i'r cyfryw gôr neu gorlan o gôr neu gorlan y cedwir y mochyn ynddo heb fynd yn groes i'r paragraff hwn.

Cyffredinol

Mae Paragraffau 11 a 12 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

11. Rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir ar gyfer adeiladu llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gyffyrddiad ag ef, beidio â bod yn niweidiol i'r anifeiliaid a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.
12. Rhaid i'r llety a'r ffitiadau a ddefnyddir i ddiogelu'r anifeiliaid fod wedi eu hadeiladu a'u cynnal fel nad oes unrhyw ymylon nac allwthiadau miniog sy'n debygol o achosi anaf i anifail.

73. Dylai'r perchennog/ceidwad ofyn i'r milfeddyg neu'r cynghorydd technegol am gyngor lles pan fydd cyfleusterau newydd yn cael eu hadeiladu neu gyfleusterau'n cael eu newid. Wrth ddewis safle addas, dylid ystyried ffactorau amgylcheddol allanol fel sŵn, cryndod a llygredd yr aer. Dylai cyfleusterau newydd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Er enghraifft, dylai'r dyluniad ganiatáu ichi ddarparu adnoddau addas a digonol i gyfoethogi amgylchedd yr holl foch. Mae rhai adeiladau arbenigol yn fannau lle mae cyfarpar mecanyddol a thrydanol cymhleth yn cael eu defnyddio a'r rheini'n gofyn am fedrau technegol a rheoli a gall alw am hyfforddiant i sicrhau bod gofynion hwsmonaeth a lles yn cael eu bodloni.
74. Dylai arwynebeddau mewnol y sied a'r corlannau fod wedi'u gwneud o ddeunydd y gellir eu glanhau'n rhwydd a'u diheintio'n rheolaidd, sy'n ddiogel ar gyfer eu defnyddio gyda moch ac y gellid cael rhai newydd yn eu lle'n rhwydd.
75. Pan gaiff adeiladau (dros dro neu barhaol) neu gorlannau allanol eu hadeiladu ar loriau caled sy'n bod eisoes (er enghraifft, ar hen ffyrdd, traciau neu leiniau awyr) na chawsant eu dylunio i gadw da byw arnynt, rhaid i'r perchennog/ceidwad sicrhau bod y llawr yn cael ei wneud yn addas ar gyfer moch ac nad yw'n beryglus i iechyd na lles y moch. Efallai y bydd angen trin lloriau o'r fath i'w gwneud yn addas ar gyfer da byw. Dylech ofyn barn arbenigwr cyn defnyddio lloriau caled o'r fath.

Lloriau

Mae Paragraffau 11 a 12 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

11. Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid i'r

lloriau -

(a) fod yn llyfn heb fod yn llithrig;

(b) b) gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal fel na fyddant yn peri anaf na

dioddefaint i'r moch wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;

(c) fod yn addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; ac

(d) ch) os nad oes unrhyw laesodr yn cael ei ddarparu, ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

12. (1) Pan ddefnyddir lloriau estyll concrit ar gyfer moch a gedwir mewn grwpiau, rhaid i led uchaf yr agoriadau fod yn (a)11 mm ar gyfer perchyll;

(b) 14 mm ar gyfer perchyll diddwyn;

(c) 18 mm ar gyfer moch magu; ac

(d) 20 mm ar gyfer banwesod ar ôl eu serfio a hychod.

(2) Rhaid i led isaf yr estyll fod yn (a)50

mm ar gyfer perchyll a pherchyll

diddwyn; a

(dd) 80 mm ar gyfer moch magu, banwesi ar ôl eu serfio a hychod.

76. Mae'n hanfodol dylunio lloriau yn dda a'u cynnal a'u cadw'n ddigonol. Gall llawr sydd wedi'i adeiladu'n wael, lled estyll anghywir ar gyfer pwysau neu faint y moch ac arwynebau sydd wedi'u treulio neu eu difrodi, anafu traed a choesau'r moch. Dylai lloriau sydd wedi'u difrodi gael eu trwsio neu eu hadnewyddu ar unwaith neu dylid rhoi'r gorau i'w defnyddio.

Mae Paragraff 10 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

10. Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân, yn sych a heb fod yn niweidiol i'r moch.

77. Rhaid cadw'r man gorwedd yn sych bob amser a dylai lloriau'r gorlan, gan gynnwys y

man teilo, ddraenio'n effeithiol. Lle darperir sarn (gwasarn/llaesodr), rhaid iddo fod yn lân, yn sych ac ni ddylai fod yn niweidiol i iechyd y moch, a dylid rhoi sarn newydd ar ei ben neu ei newid yn rheolaidd.

Cyfoethogi'r amgylchedd

Mae Paragraff 15 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

15. Er mwyn galluogi gweithgarwch chwilota a thrin pethau yn briodol, rhaid bod modd parhaol i bob mochyn fynd at gyflenwad digonol o ddeunyddiau megis gwellt, gwair, pren, blawd llif, compost madarch, mawn neu gymysgedd o ddeunyddiau o'r fath nad ydynt yn andwyol i iechyd yr anifeiliaid.

78. Rhaid i bob mochyn allu mynd bob amser at ddeunydd cyfoethogi sy'n rhoi cyfle i foch chwilota, trafod a thyrchu. Dylai deunydd cyfoethogi alluogi'r moch i ddiwallu eu hanghenion ymddygiadol hanfodol heb aberthu eu hiechyd. Rhaid iddo fod yn ddiogel, hylan ac yn ddelfrydol, dylai ^{82.} feddu ar y priodoleddau canlynol:

- a) **bwyttadwy** - er mwyn i'r moch allu ei fwyta a'i arogl (o bosibl â rhyw fanteision o ran maeth);
- b) **bod modd ei gnoi** - er mwyn i'r moch allu ei frathu;
- c) **bod modd tyrchu ynddo** - er mwyn i foch allu chwilota ynddo; a
- d) **bod modd ei drin** - fel bod y moch yn gallu ei symud a newid ei olwg a'i strwythur.

83. Mae'r tabl isod, er nad yw'n gyflawn, yn rhoi arweiniad ar ba mor addas yw deunyddiau cyfoethogi a ddefnyddir yn gyffredin.

79. Mae gwellt a gwair yn enghreifftiau o ddeunydd perffaith ar gyfer cyfoethogi'r amgylchedd, gan eu bod yn bodloni'r holl briodoleddau a ddisgrifir uchod o roi digon ohonynt a'u hadnewyddu'n rheolaidd. Maen nhw'n ddeunydd ffibrog y gall y mochyn eu bwyta; a thyrchu a chwarae ynddynt; a phan fydd yn cael ei ddefnyddio fel sarn, gall y deunydd roi cysur cynhesrwydd a chorfforol i'r mochyn. Mae sawl math o wellt sy'n addas fel deunydd cyfoethogi, ond mae ambell fath yn llai addas na gwellt ydau fel haid, ceirch a gwenith. Y brif ystyriaeth yw ansawdd y deunydd, er enghraifft, nad yw'n wlyb a heb lwydni.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddeunydd na ddylech ei ddefnyddio am eu bod yn gallu bod yn beryglus i iechyd neu i'r amgylchedd neu am resymau eraill: compost madarch, mawn neu fathau newydd o sarn, fel sarn "gwyrdd".

Mae pethau megis peli troed a chadwyni'n gallu diwallu anghenion ymddygiadol y moch er bod eu newydd-deb yn gallu pylu'n gyflym. Mae eitemau o'r fath yn annerbyniol oni bai'ch bod yn eu hategu â deunydd sy'n cael ei ystyried yn ddeunydd cyfoethogi addas. Gweler y tabl ym mharagraff 83.

Mae deunydd cyfoethogi yn cael ei gategoreiddio yn ôl sut mae'n bodloni'r priodoleddau.

- a) y deunydd gorau - y deunydd sydd â'r holl briodoleddau a restrir ym mharagraff 78. Gellir defnyddio deunydd o'r fath ar ei ben ei hun;
- b) y deunydd ail orau - deunydd sydd â'r rhan fwyaf o'r priodoleddau. Dylid ei ddefnyddio felly ar y cyd â deunydd arall i gyfoethogi profiadau'r moch; a
- c) deunydd sy'n annerbyniol ar ei ben ei hun - deunydd nad oes gan foch fawr o ddiddordeb ynddo ac nad yw'n gallu diwallu eu hangen sylfaenol am brofiadau sy'n cyfoethogi. Dylid ei ddefnyddio felly ar y cyd â'r deunydd gorau ac ail orau.

Pa mor addas yw deunydd ar gyfer rhoi profiadau cyfoethogi i foch

Deunydd	Yn cael ei ddarparu fel	Addasrwydd y deunydd cyfoethogi	Rhagor o wybodaeth	Peryglon (holwch bob tro a yw'n wenwynig)
Gwellt ydau a phorfa sych	Sarn (deunydd gorwedd)	Y Gorau	Â'r holl briodoleddau cyfoethogi Maen nhw hefyd, ar ffurf sarn, yn cadw'r moch yn gynnes ac yn gyfforddus.	Bydd cystadleuaeth amdano os nad oes digon ar gyfer yr holl foch. Yn gallu baeddu a gwlychu. Bydd angen ei adnewyddu'n rheolaidd. Mae rhai mathau o wellt yn llai addas fel sarn.
Silwair, gwreiddlysiau D.S. Mae pannas yn wenwynig i foch	Ffynhonnell fwyd newydd	Y Gorau	Os bydd silwair ar gael yn barhaol, dylech ddarparu deunydd ffres yn rheolaidd i gadw ei werth.	Darparwch y symiau iawn i osgoi cystadleuaeth a gorfwyta. Gofalwch fod y llysiau'n ddiogel o ystyried faint o roddir.
Gwellt ydau a phorfa sych	Ar restl neu mewn cafn	Ail orau i Orau	O'i adnewyddu'n rheolaidd, caiff ei ystyried fel y deunydd gorau. Hyn yn lanach na'i ddarparu fel sarn.	Cystadleuaeth os nad oes digon o gynwysyddion a/neu os na roddir digon bob dydd.
Crafion pren, blawd llif	Sarn (deunydd gorwedd)	Ail orau	Gellir ychwanegu deunydd y gellir ei fwyta/drin ato.	Rhaid sicrhau ei fod yn ddiogel - pren heb ei drin, dim metel.
Tywod	Sarn (deunydd gorwedd)	Ail orau	Gellir ychwanegu deunydd y gellir ei fwyta/drin ato.	Rhaid gofalu ei fod yn ddiogel.
Papur mân	Sarn / deunydd nythu	Ail orau	Gellir ychwanegu deunydd y gellir ei fwyta/drin ato.	Gofalwch ei fod yn ddiogel ac yn ddi-fetel. Ni argymhellir papur wedi'i brintio neu'i ailgylchu oherwydd y tocsinau yn yr inc.
Pren, cardfwrdd, rhaff naturiol, sach hesian meddal, heb eu trin	Gwrthrych	Ail orau	Gellir ychwanegu deunydd y gellir ei fwyta/drin ato Os ydych yn defnyddio rhaff, rhwch glymau ynddi fel na all y moch frathu darnau hir a allai diweddu'u hoes yn y system slyri.	Bydd cystadleuaeth amdano os nad oes digon ar gyfer yr holl foch.
Gwellt wedi'i gywasgu mewn sylindr	Gwrthrych	Ail orau	Gellir ychwanegu deunydd y gellir tyrchu ynddo/ei drin.	Bydd cystadleuaeth amdano os nad oes digon ar gyfer yr holl foch.

Brics blawd llif (crog neu sefydlog)	Gwrthrych	Ail orau	gellir ychwanegu deunydd y gellir ei fwyta / tyrchu ynddo/ ei drin.	Bydd cystadleuaeth amdano os nad oes digon ar gyfer yr holl foch.
Cadwyn, rwber, pibau plastig meddal, peli caled plastig, pren caled	Gwrthrych	O ychydig ddiddordeb yn unig.	Bydd angen ychwanegu deunydd gorau ac ail orau.	Diddordeb yn pylu'n gyflym. Mae crogi'r gwrthrych yn ei gadw'n lân. Dylech ei newid yn aml.

84. Dylai'r deunydd cyfoethogi gadw diddordeb a dylai fod ar gael bob amser, gyda digon ohono i'r holl foch gael cyfle i ryngweithio. Ni fydd deunydd sydd heb yr holl briodoleddau mor debygol o daro'r nod ac efallai y bydd angen ei newid neu ei gyfnewid yn amlach. Gweler paragraff 78.

85. Os mai sarn yw'r deunydd cyfoethogi, dylai fod digon ohono i gynnal diddordeb a rhaid ei gadw'n lân, sych a diogel ar gyfer ei ddefnyddio fel deunydd gorwedd ar gyfer y moch. Gellir gwella'r elfen gyfoethogi mewn gwellt a sarn arall trwy ychwanegu bêls newydd yn rheolaidd, i'r moch allu eu tynnu'n ddarnau eu hunain.

86. Os na fydd modd gosod llawer o ddeunydd cyfoethogi yr un pryd oherwydd y systemau carthu slyri a'r lloriau, dylai'r perchennog/ceidwad adnewyddu'r hyn a ddarperir yn rheolaidd er mwyn cynnal y diddordeb.

87. O ran cynnal diddordeb y mochyn, mae pa mor aml yr adnewyddir y deunydd, pa mor rhwydd y gellir mynd ato a'i swm yn ffactorau pwysig. Efallai y bydd angen ei archwilio'n gorfforol yn ogystal ag yn weledol. Os gwelir y moch yn cnoi moch eraill neu ddeunydd arall fel tail neu offer, gallai hynny fod yn arwydd nad yw'r deunydd cyfoethogi yn ddigonol neu'n effeithiol a dylech ei ailystyried. Gweler paragraffau 129 i 147.

13. Rhaid cadw cylchrediad yr aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder cymharol yr aer a chrynodiadau nwy o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i'r anifeiliaid.

Mae Paragraff 16 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

16. Rhaid peidio â chadw moch mewn amgylchedd lle y cynhelir tymereddau a lleithder uchel (a adwaenir fel y "system blwch-chwysu").

88. Mae system awyru effeithiol yn hanfodol i les y stoc am ei bod yn darparu aer ffres, yn gwaredu nwyon gwenwynus ac yn helpu i reoli tymheredd. Gall lefelau uchel o amonia gael effeithiau niweidiol ar iechyd moch yn ogystal ag ar iechyd y stocmyn.

89. Gellir rheoli'r tymheredd ac ansawdd yr aer trwy gyfuniad o system awyru effeithiol a digon o inswleiddiad yn y to, waliau a'r lloriau.

90. Dylid cadw offer awyru'n lân ac mewn cyflwr da a'i weithio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

91. Mae'n hanfodol bod y perchennog/ceidwad yn cadw golwg ar ymddygiad y moch i weld a yw'r amgylchedd yn addas neu beidio. Os nad yw, dylai gymryd camau priodol. Mae'n bwysig hefyd osgoi drafftiau. Gweler paragraffau 136 i 147.

92. Dylai'r cynllun iechyd a lles ddisgrifio unrhyw brotocolau ychwanegol neu newidiadau rheoli y bydd eu hangen ar adegau gwahanol o'r flwyddyn i helpu'r moch i ddygymod â newid yn y tymheredd allanol. Bydd angen ystyried

Awyru a tymheredd

Mae Paragraff 13 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

eu pwysau; oed; maint y grŵp, iechyd y genfaint; math o lawr (sarn neu ddim sarn); cyflymder yr aer a lleithder.

93. Mae moch yn arbennig o sensitif i ordwymo. Dylai fod rhyw fan gorwedd sych llai cynnes ar gael bob amser er mwyn i'r moch allu dewis symud iddo. Dylai'r cynllun iechyd a lles gynnwys amodau wrth gefn ar gyfer delio â chyfnodau hir o dywydd twym neu pan fydd adeilad yn debygol o ordwymo. Lle bo angen ac yn ystod yr haf, gallai hynny gynnwys lleihau'r dwysedd stocio; sgeintio dŵr; creu tARTH neu gyflymu'r llif aer, ac er enghraifft, agor ffenestri a fentiau neu addasu'r llenni ochrol cyn belled na fyddai hynny'n effeithio ar y systemau awyru, gan gynnwys o ran rheoli'r lleithder.
94. Gall oerfel fod yr un mor niweidiol i foch, yn enwedig perchyll ifanc iawn ym mhob system a phob mochyn os nad oes system weithredol i reoli'r amgylchedd. Mae'n hanfodol darparu gwres ychwanegol, mwy o inswleiddiad a sarn, lleihau drafftiau a chymryd camau perthnasol eraill er mwyn lleihau'r perygl o niwed oherwydd tywydd oer. Dylid eu cofnodi yn y cynllun iechyd a lles.
95. Dylai'r cynllun gynnwys amodau ar gyfer delio â newidiadau mawr yn y tymheredd allanol mewn diwrnod, er mwyn amddiffyn y moch rhag straen a allai achosi clefydau neu ymddygiad annymunol.
96. Mae sarn o wellt yn gallu creu microhinsawdd i lefelu'r newid yn y tymheredd. Ond gall gormod o wellt mewn tylciau porchella yn yr awyr agored gynyddu nifer y perchyll sy'n marw.
97. Pan symudir moch i sied newydd, dylai'r corlannau fod yn sych ac o'r un tymheredd â'r gorlan y cafodd y moch eu symud ohoni. Mae

hyn yn arbennig o bwysig i foch newydd eu diddyfnu.

98. Wrth garthu slyri o dan yr estyll, rhaid bod yn ofalus iawn rhag gadael i nwyon peryglus grynhoi gan eu bod yn berygl i bobl a moch. Yn ddelfrydol, dylai'r carthu gael ei wneud pan fydd yr adeilad yn wag neu wedi'i awyru'n dda iawn.

Golau a lefelau sŵn

Mae Paragraff 16 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

16. Rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys rhag olau artiffisial.

Mae Paragraffau 7, 17 ac 18 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

7. Pan gedwir moch mewn adeilad â golau artiffisial, yna, rhaid darparu golau o ddwystr 40 lux o leiaf am gyfnod o 8 awr y dydd o leiaf, yn ddarostyngedig i baragraff 16 o Atodlen 1.
17. Rhaid peidio â rhoi moch mewn sefyllfa lle y maent yn agored i sŵn cyson neu sydyn.
18. Rhaid osgoi lefelau sŵn uwchlaw 85 dBA yn y rhan o unrhyw adeilad lle y cedwir moch.

99. Dylai perchenogion/ceidwaid gadw golwg ar lefelau goleuo fel mater o drefn a chadw cofnod o'r lefelau yn y corlannau ym mhob cam magu, gan gynnwys yn y corlannau geni

perchyll. Dylai goleuadau gael eu harchwilio, eu cynnal a'u glanhau'n rheolaidd.

100. Dylid lleoli peiriannau megis unedau malu bwyd mewn mannau priodol fel bod eu sŵn yn cael cyn lleied o effaith ar y stoc â phosibl.

Cyfarpar awtomataidd a mecanyddol

Mae Paragraffau 18 i 21 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

18. Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.
19. Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.
20. Pan fo iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial —
- (a) rhaid darparu system briodol wrth gefn i warantu y gellir adnewyddu'r aer yn ddigonol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid pe digwyddai i'r system fethu; a
 - (b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

21. Rhaid i'r system wrth gefn y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm y cyfeirir ati ym mharagraff 20(b) gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg ar y system, ac os canfyddir unrhyw ddiffyg ar unrhyw adeg, rhaid ei gywiro ar unwaith.

101. Dylid glanhau ac archwilio'r holl offer, gan gynnwys hopranau bwyd, offer yfed, cyfarpar awyru, unedau gwresogi a goleuo, diffoddyddion tân a systemau larwm, yn rheolaidd a'u cadw mewn cyflwr da. Dylai'r holl offer trydan fodloni'r safonau gofynnol a dylid gofalu eu bod wedi'u daearu, yn ddiogel rhag llygod ac ati ac allan o gyrraedd moch.
102. Dylai'r cynllun iechyd a lles gynnwys gynlluniau wrth gefn i ddelio â'r risgiau i les anifeiliaid pe bai system awtomataidd yn methu. Er enghraifft, os ydy'r cyflenwad dŵr sy'n dibynnu ar gyflenwad dan bwysau yn methu ac nad oes modd ei drwsio, yna dylai fod cynllun i ddarparu cyflenwad dŵr yn ei le i'r holl foch i ddiwallu eu hanghenion dyddiol, gan gynnwys dros y penwythnos.

Bwyd, dŵr a sylweddau eraill

Mae Paragraffau 22 i 27 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

22. Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachusol sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn cyflenwad digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i ddiwallu eu hanghenion maethol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.
23. Rhaid peidio â darparu i anifeiliaid fwyd neu hylif sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a allai beri

dioddefaint neu anaf diangen iddynt, a rhaid darparu bwyd a hylif ar eu cyfer mewn modd nad yw'n peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

24. Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fo milfeddyg wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall

25. Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad addas o ddŵr a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu ei angen i yfed digon o hylifau trwy dulliau eraill.

26. Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dŵr neu effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

27. (1) (Ni chaniateir rhoi i anifeiliaid unrhyw sylwedd arall, ac eithrio rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffylactig neu at ddibenion triniaeth sŏotechnegol, oni ddangoswyd mewn astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu trwy ymarfer sefydledig nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

Mae Paragraff 13 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

13. (1) Rhaid bwydo pob mochyn o leiaf unwaith y dydd.

(2) Pan letyir grŵp o foch heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan na fwydir hwy trwy system fwydo awtomatig sy'n bwydo'r anifeiliaid yn

unigol, rhaid bod modd i bob mochyn fynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

103. Mae'n anghyfreithlon rhoi gwastraff arlwyo, crafion cegin, cig neu gynnrych cig yn fwyd i anifeiliaid fferm, gan gynnwys moch. Mae hynny'n cynnwys gwastraff cegin unrhyw aelwyd a gwastraff arlwyo unrhyw sefydliad, waeth a yw'r cegin yn delio â bwyd llysieuol neu fegan yn unig neu beidio.

104. Mae angen deiet gytbwys bob dydd ar fochyn i'w gadw'n iach ac yn hoenus, a dylid cynllunio unrhyw newid i'r ddeiet yn ofalus a'i gyflwyno'n raddol.

105. Wrth gyflwyno moch i adeiladau anghyfarwydd, dylai'r perchennog/ceidwad sicrhau bod yr anifeiliaid yn gallu cael hyd i'r manau bwydo a dyfrio. Pan fydd perchyll sydd newydd eu diddyfnu yn cael eu symud i gorlannau lle mae dŵr yn cael ei ddarparu drwy bigynnau dŵr (*nipple drinkers*) sy'n anghyfarwydd i'r perchyll, mae'n arfer da darparu dŵr trwy ffynhonnell arall am y diwrnodau cyntaf.

106. Os na ddefnyddir system fwydo ad-lib a bod y moch yn cael eu bwydo ar adegau penodol fel grŵp, rhaid i'r perchennog/ceidwad sicrhau bod y cafn neu'r gofod bwydo'n ddigon mawr i'r holl foch allu bwydo'r un pryd heb i'r moch eraill darfu arnyn nhw. Gweler y canllawiau isod ar gyfer faint o le sydd ei angen ar bob mochyn wrth y cafn bwydo:

PWYSAU'R MOCHYN (Kg)	LLE WRTH Y CAFN (cm)
5	10
10	13
15	15

35	20
60	23
90	28
120	30

107. Mae hanfodol cadw systemau storio a bwydo yn lân gan fod llwydni yn gallu tyfu ar hen fwyd a chael effaith niweidiol ar foch.

Mae Paragraff 14 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

14. Rhaid bod modd parhaol i bob mochyn dros ddwy wythnos oed gael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres.

108. Mae nifer o ffactorau y bydd angen eu hystyried wrth ddarparu dŵr i foch:
- a) faint o le sydd ar gael;
 - b) nerth y llif (nid yw moch yn treulio llawer o amser yn yfed dŵr);
 - c) dull darparu'r dŵr, er enghraifft, y math o offer yfed;
 - d) bod y dŵr o fewn cyrraedd pob mochyn dros bythefnos oed, gan gynnwys moch sâl ac wedi'u hanafu yn y corlannau milfeddygol;
 - e) yr angen i gynyddu'r cyflenwad dŵr yn ystod tywydd twym ac ar gyfer moch sâl, er enghraifft y rheini â'r dolur rhydd;
 - f) cyflenwad dŵr at ddibenion eraill, er enghraifft, i oeri corlannau ac ar gyfer creu pwll llaid i foch orwedd ynddo mewn uned awyr agored;
 - g) sicrhau bod dŵr nad yw'n dod o'r prif gyflenwad yn addas fel ffynhonnell dŵr

yfed diogel (a'r gofyn i gynnal profion rheolaidd priodol);

- h) yr angen i gadw systemau darparu dŵr yn lân; a
- i) trefn ddyddiol y perchennog/ceidwad ar gyfer archwilio cyflenwadau dŵr i'r holl foch er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

109. Mae'r canlynol yn ganllaw ar faint o ddŵr sydd ei angen bob dydd ar foch o bwysau gwahanol:

Pwysau'r mochyn (kg)	Anghenion dyddiol (litr)	Y llif lleiaf trwy bigyn yfed (litr/mun)
Newydd ddiddyfnu	1.0 – 1.5	0.3
Hyd at 20kg	1.5 – 2.0	0.5 – 1.0
20kg - 40kg	2.0 – 5.0	1.0 – 1.5
Moch wedi'u pesgi hyd at 100kg	5.0 – 6.0	1.0 – 1.5
Hychod a banwesod - cyn eu serfio a thorrog	5.0 – 8.0	2.0
Hychod a banwesod - yn llaetha	15 – 30	2.0
Baeddod	5.0 – 8.0	2.0

110. Gall dŵr gwastraff a llif gormodol neu annigonol fod yn niweidiol, yn enwedig i hychod mewn corlannau porchella a moch ifanc iawn. Ni ddylid ystyried bod y cyflenwad dŵr sydd wedi'i gysylltu wrth offer bwydo-dyfrio yn gyflenwad dŵr yfed digonol ar ei ben ei hun gan y bydd moch sy'n bwydo yn ffordd moch sydd am yfed.

111. Dylid ystyried yn ofalus ar ba uchder y dylid gosod y pigyn yfed a'r fowlen. Gan fod angen i bob mochyn allu mynd at y man yfed, efallai y bydd angen gallu addasu'r uchder, neu ddarparu sawl pigyn ar uchder gwahanol pan fydd grwpiau o foch amrywiol eu pwysau yn cael eu cadw gyda'i gilydd neu pan fydd moch yn cael eu cadw yn yr un gorlan am gyfnod hir.

112. Wrth ddefnyddio pigynnau yfed, bydd angen un man yfed ar gyfer pob deg mochyn diddwyn ac unrhyw foch eraill sy'n cael eu bwydo fesul dogn. Os nad oes dogni ar y bwyd, dylai un pigyn dŵr fod yn ddigon ar gyfer 15 mochyn, a bwrw bod y llif yn ddigonol. Dylai fod gan bowlenni yfed gronfa ddŵr ynndyn nhw a dylai un fowlen fod yn ddigon ar gyfer 30 o foch. Pan fydd systemau cafn yn cael eu defnyddio, dylid dilyn y canllawiau canlynol:

PWYSAU'R MOCHYN (kg)	LLE WRTH Y CAFN Y PEN (cm)
Hyd at 15	0.8
15 - 35	1.0
>35	1.2

113. Mae moch yn gallu diodde'n rhwydd o ddiffyg hylif a chyflwr o'r enw 'salt poisoning'. Mewn argyfwng, os gwelir na fydd dŵr ar gael ar gyfer y moch am 24 awr neu fwy, rhaid trefnu system o gyflenwi dŵr â llaw. Ni ddylid peidio â rhoi dŵr i hychod sy'n cael eu sychu ar ôl diddyfnu'u perchyll.

Rheoli

Cyffredinol

Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

17. Pan na chedwir anifeiliaid mewn adeiladau, rhaid eu hamddiffyn pan fo angen a phan fo'n bosibl rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd, a rhaid iddynt gael cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

Mae Paragraff 9 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

9.(1) Rhaid i adeiladau, corlannau, cyfarpar a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer moch gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.

(2) Rhaid i ysgarthion, wrin a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael ei symud mor aml ag y bo angen i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnofilod.

114. Yn ddelfrydol, dylid glanhau a diheintio pob rhan o'r adeilad, corlan ac offer y mae'r moch yn dod i gysylltiad â nhw rhwng i un garfan o foch adael ac i garfan arall o foch gyrraedd. Mae'n ofyn statudol pan symudir perchyll o dan 28 niwrnod oed sy'n cael eu diddyfnu i lety newydd, rhaid ei lanhau a'i ddiheintio. Gweler y blwch ym mharagraff 157. Lle medrir, er mwyn hwyluso hynny ac er mwyn lleihau'r perygl o basio clefydau rhwng grwpiau o foch, dylid gwacáu'r sied cyn ei llenwi eto.

115. Dylid clirio adeiladau, caeau a buarthau o bopeth allai niweidio'r moch.

116. Dylai'r perchennog/ceidwad gymryd pob cam ymarferol i symud pob mochyn o ardaloedd sydd ar fin cael eu gorlifo.

Baedda naturiol, ffrwythloni artiffisial a fasdori

Mae Paragraffau 28 a 29 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

28. (1) Rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint minimal neu fyrhoedlog, neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn achosi anaf parhaol.

29. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles.

117. Dylai rhaglenni bridio roi o leiaf cymaint o sylw i wella iechyd a lles ag i gynhyrchiant. Felly, dylid annog rhaglenni i ddiogelu neu ddatblygu bridiau o foch fyddai'n lleihau neu'n cyfyngu problemau lles anifeiliaid.

118. Dylai fod gan bob baedd le da a diogel ar gyfer serfio. Nid yw lloriau estyll ac amodau llithrig dan draed yn addas ar gyfer anifeiliaid sy'n paru. Fel rhan o'r cynllun iechyd a lles, dylid trafod â milfeddyg y perchennog/ceidwad sut i sicrhau nad yw baeddod a hychod yn cael eu hanafu wrth baru'n ormodol.

Mae Paragraffau 5 (1) a 6 (3)(b) o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

5. (1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.

6. (3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i fochyn a gedwir mewn côr neu gorlan—
[...]

(b) at ddibenion serfio, ffrwythloni artiffisial neu gasglu semen;
[...]

ar yr amod nad yw'r cyfnod y cedwir y mochyn felly yn hwy nag y bo'i angen at y diben hwnnw.

119. Dylech gadw'r hychod yn eu grwpiau tan ei bod yn amser eu ffrwythloni. Bryd hynny, gellir eu symud i gôr (stâl) neu gorlan (lloc) ar gyfer eu ffrwythloni. Dylid caniatáu amser i hwch ymgynefino â'r côr neu'r gorlan, ac yna ei chyflwyno i faedd er mwyn symblu'r atgyrch sefyll cyn ei ffrwythloni'n artiffisial. Nid yw'n dderbyniol cadw hwch am amser hir mewn corlan ffrwythloni lle na chaiff droi o gwmpas yn rhwydd, cyn nac ar ôl ffrwythloni.

120. Dylid gadael yr hwch heb darfu arni i gyfangiadau'r groth ddod i ben ar ôl ffrwythloni artiffisial (a serfio naturiol), ond dylai wedyn gael ailymuno â'i grŵp, gan gynnwys rhwng sesiynau ffrwythloni, i osgoi unrhyw fwlio o fewn hierarchaeth y grŵp.

121. Dim ond person sydd wedi'i hyfforddi ac sy'n brofiadol a chymwys ddylai cael casglu semen a ffrwythloni'r hwch yn artiffisial. Dim ond milfeddyg ddylai cael cyflawni fasdoriad.

Anffurfio

Mae Adran 5 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

5. (4 (1) A person commits an offence if—

- (a) he carries out a prohibited procedure on a protected animal;
- (b) he causes such a procedure to be carried out on such an animal.

(2) A person commits an offence if— (a) he is responsible for an animal,

(b) another person carries out a prohibited procedure on the animal, and

(c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening.

(3) References in this section to the carrying out of a prohibited procedure on an animal are to the carrying out of a procedure which involves interference with the sensitive tissues or bone structure of the animal, otherwise than for the purpose of its medical treatment.

(4) Subsections (1) and (2) do not apply in such circumstances as the appropriate national authority may specify by regulations.

122. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gwahardd anffurfio moch, yn gyffredinol.
(Mae Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn caniatáu rhai

triniaethau (gweler Atodiad 2007) cyn belled â bod y driniaeth yn cael ei gwneud gan berson sydd wedi'i ganiatáu i'w gwneud a:

- a) yn unol â'r gofynion perthnasol yn yr Atodlenni;
- b) mewn dull sy'n cadw lefel y boen a'r dioddefaint i'r anifail i leiafswm
- c) o dan amodau hylan; ac
- d) yn unol ag arfer da.

123. Gall ei anffurfio achosi poen i fochyn ac ni ddylid ei wneud nes ichi glywed barn briodol am bosibiliadau eraill ym mhob achos ac nid fel mater o drefn. Gweler Atodiad 2.

Tocio cynffonnau

Mae Paragraff 5 o Atodlen 3 i Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn datgan:

5. Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond os cymerwyd camau yn gyntaf i wella amgylchiadau amgylcheddol neu systemau rheoli er mwyn atal brathu cynffonnau, ond y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod y moch wedi'u hanafu gan frathu cynffonnau.

Rhaid i'r dull a ddefnyddir gynnwys torri'r gynffon yn gyflym ac yn llwyr.

Rhaid rhoi anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol pan fo'r anifail yn 7 niwrnod oed neu'n hŷn na hynny.

**Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Anffurfio
(Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn
datgan:**

1) Ac eithrio'r triniaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), ni cheir rhoi unrhyw driniaeth, a ganiateir o dan reoliad 2 ac y mae Deddf Milfeddygon 1966 neu Orchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 1962 yn gymwys iddi, ac eithrio gan berson y caniateir iddo ei rhoi o dan y ddeddfwriaeth honno.

(2) Caniateir tocio cynffonau neu ysbaddu moch naill ai gan filfeddygon yn unig neu, pan nad yw'r anifeiliaid yn hŷn na 7 diwrnod oed, gan berson sy'n brofiadol yn y technegau cysylltiedig a naill ai'n berson sy'n gyfrifol am yr anifail neu'n berson a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan berson o'r fath i drin yr anifail.

124. Ni chaniateir tocio cynffonau fel mater o drefn. Ni chaniateir tocio cynffonau ond fel dewis olaf os ceir nad yw gwelliannau i amgylchedd y moch a gwelliannau rheoli wedi gweithio i gael y moch i roi'r gorau i frathu cynffonau. Dylai perchennogion/ceidwaid gofnodi tystiolaeth o frathu cynffonau a chadw cofnodion o'r mesurau a gymerwyd a'u heffeithiolrwydd o ran gwella lles y moch. Lle nad oes cofnodion ac y gwelir bod cynffonau'r moch wedi'u tocio, gellir ystyried hynny wrth ddod i unrhyw benderfyniad ynghylch cyfreithlondeb y weithdrefn tocio cynffonau a wneir gan y perchennogion/ceidwaid. Os ydy'r uned fridio yn torri cynffonau yn sgil cais gan uned besgi, cyfrifoldeb y perchennog yw gofyn i'r uned ymgeisio am y dystiolaeth i gyfiawnhau tocio cynffonau yn yr uned fridio.

125. Rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig milfeddyg cyn dechrau tocio cynffonau. Ar sail ei asesiad risg milfeddygol o fesurau ac

arferion rheoli a gynhaliwyd a chofnodion tocio cynffonau a chofnodion cysylltiedig eraill (er enghraifft, adroddiadau gan ladd-dai), dylai cadarnhad y milfeddyg gytuno ei bod yn angenrheidiol ac amhosibl osgoi tocio cynffonau'r garfan benodol o foch dan sylw neu am gyfnod penodol o amser h.y. o leiaf bob chwarter. Dylai'r milfeddyg gynnwys y dystiolaeth y mae wedi edrych arni ar gyfer ei gadarnhad.

126. Dylid adolygu adroddiadau fferm a lladd-dai ynghylch anafiadau i gynffonau a chanfyddiadau post mortem cysylltiedig yn rheolaidd. Bydd y rhesymau dros frathu cynffonau a'r camau a gymerir i'w reoli yn benodol i'r fferm unigol ac amgylchiadau'r achos.

127. Os bu'n arfer am gyfnod hir ar y fferm i docio cynffonau i rwystro moch rhag brathu cynffonau, dylid adolygu'n fwy rheolaidd y mesurau a gymerir i'w hatal rhag brathu cynffonau ac efallai y bydd angen i berchenogion/ceidwaid ystyried newid y trefniadau rheoli neu'r system y mae'r moch yn cael eu magu ynddi. Dylid gwneud yn siŵr bod modd darparu digon o ddeunydd cyfoethogi mewn unrhyw lety neu system rheoli slyri newydd ac yr aed i'r afael â ffactorau eraill all sbarduno moch i frathu cynffonau er mwyn gwneud yn siŵr bod tocio cynffonau'n cael ei ystyried fel dewis olaf neu fesur anarferol. Wrth ddylunio ac adeiladu llety newydd, dylid rhoi ystyriaeth lawn i briodoldeb y llawr. Gweler paragraff 124 hefyd.

128. Os oes angen tocio cynffon, rhaid ei wneud yn unol â'r gyfraith gan berson cymwys hyfforddedig cyn y seithfed dydd ym mywyd yr anifail, neu gan filfeddyg. Mae'n bwysig bod yr holl offer a ddefnyddir yn cael eu glanhau a'u diheintio rhwng toreidiau o foch.

Rheoli a lleihau'r risg o frathu cynffonnau

129. Mae barthu cynffonnau'n broblem amlweddog. Mae'n bwysig, fel crefft da byw, gweld y risgiau cyn bod moch yn dechrau brathu cynffonnau. Trwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, bydd modd gwella iechyd a lles, hyrwyddo llesiant y moch ac yn y pendraw, lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau a lleihau nifer y marwolaethau a nifer y carcasau a wrthodir. Dylai hynny yn ei dro arwain at wella cynhyrchiant y genfaint. Dylid cofnodi gweithdrefnau rheoli pob dydd a'r gofynion dyddiol o ran monitro/cofnodi risgiau brathu cynffonnau mewn cynllun iechyd a lles, er enghraifft.

130. Rhaid wrth ymrwymiad a gallu gan y perchennog / ceidwad wrth benderfynu ar fesurau rheoli / gofalu am dda byw, i gyflawni'r tasgau hyn yn dda, er enghraifft, rheoli systemau awyr; lefelau cyfforddus o gynhesrwydd; dull cyflenwi bwyd a dŵr; cynlluniau wrth gefn i unioni methiant yn y bwyd, dŵr a'r system awyru; dewis geneteg y moch; amrywio hyd cynffonnau; cymysgu moch, sylwi ar arwyddion cynnar o frathu cynffonnau; adnabod moch sy'n brathu cynffonnau a'r rheini y brethir eu cynffonnau; cymryd y brathwr o'r genfaint; a rheoli corlannau milfeddygol yn fuan ar ôl i'r brathu ddechrau.

131. I helpu perchenogion/ceidwaid i gael hyd i'r atebion a'r strategaethau rheoli sy'n gweithio orau ar fferm benodol, dylid gwerthuso nifer o elfennau o strwythur y fferm, gan gynnwys ei stocmyn, sut mae'n cael ei rheoli a'r moch, a lle bo angen, dylid gwneud newidiadau ar ôl clywed cyngor y milfeddyg. Dylid ystyried y ffactorau canlynol:

1. **adnoddau** neu 'mewnbynnau' - adeiladwaith y gorlan, ffitiadau, deiet a deunydd cyfoethogi'r amgylchedd;
2. **mesurau amgylcheddol** - fel lefelau cyfforddus o gynhesrwydd (tymheredd a lleithder cymharol, newid yn y tymheredd, drafftiau), ansawdd yr aer (er enghraifft, amonia, llwch, lefelau carbon deuocsid) a lefelau goleuo; a
3. **dangosyddion cyflwr anifail** - fel iechyd/clefyd gan gynnwys anafiadau; glendid, ymddygiad positif a negyddol (er enghraifft, chwarae, ymosodedd, cnoi/brathu rhannau'r corff) a chystadleuaeth am fwyd/diod.

Ystyrir rhai o'r ffactorau hyn yn fanylach yn y paragraffau canlynol: • **Adeiladwaith y gorlan a glendid;**

• **Deunydd cyfoethogi (gweler paragraffau 78 i 87);**

• **Deiet;**

• **Lefelau cyfforddus o gynhesrwydd, ansawdd yr aer a golau**

• **Cystadleuaeth.**

Adnoddau

Adeiladwaith y gorlan a glendid

132. Mae amgylchedd budr yn gwneud y rhannau byw yn llai cyfforddus ac yn cynyddu lefel nwyon annymunol ac yn peryglu'r risg o glefyd. Mae'n bwysig bod yna rannau pendant ar gyfer gorffwys, bwydo a theilo. Gall hi fod yn anoddach dweud ar fochyn brwnt a yw ei glustiau, ystlys a'i gynffon yn cael eu brathu. Dyma arwyddion posibl bod adeiladwaith y gorlan yn anaddas neu ei bod yn rhy fudr, a allai arwain at frathu cynffonnau:

- tail ar gyrff y moch. Gall moch budr fod yn arwydd posibl o amgylchedd diffygiol, maeth drwg neu glefyd; a
- mwy o afiechyd (cloffni, dolur rhydd, heintiau anadlu, sgil-heintiau ar glwyfau ar y croen).

Deunydd cyfoethogi

133. Cyfoethogi'r amgylchedd yw'r broses o wella'r amgylchedd y mae'r mochyn yn cael ei fagu ynddo trwy sbarduno ei deithi naturiol a chryf i dyrchu a chwilota. Mae hynny'n aml yn golygu ychwanegu deunydd at yr amgylchedd a'i wneud yn fwy cymhleth. Dylai hynny leihau stres ac ymddygiad niweidiol fel brathu cynffonnau ac ymladd. Dyma arwyddion posibl o ddiffyg deunydd cyfoethogi neu ddeunydd diffygiol, a allai arwain at frathu cynffonnau:

- cynffonnau a chlustiau ag olion brathu;
- briwiau ar y croen;
- colli diddordeb yn y deunydd cyfoethogi ar ôl ychydig;
- brathu celfi'r gorlan neu foch eraill yn lle'r deunydd cyfoethogi;
- tyrchu a throï'r tail;
- cystadlu neu ymladd am y deunydd cyfoethogi; a
- bol-dwrio.

Gallai rhai o'r uchod fod yn gysylltiedig â ffactorau risg eraill. Dylid cynnal asesiad holistig o'r holl risgiau sydd wedi'u nodi ar y fferm ac yn yr unedau bridio sy'n ei bwydo os yw hynny'n briodol. Gweler paragraffau 78 i 87.

Deiet

134. Bydd angen i fwyd moch fod yn ddigon trwchus, yn ogystal â chynnig y lefelau cywir o fwynau, ffeibr ac asidau amino hanfodol. Mae

angen digon o ddŵr ffres o ansawdd da hefyd. Mae coluddion iach yn golygu llai o ddolur rhydd; moch iachach; cynnydd dyddiol gwell yn y pwysau; trosi bwyd yn well a llai o angen am wrthfotigau. Dyma arwyddion posibl deiet anaddas, a allai arwain at frathu cynffonnau:

- corff di-raen neu ddiffyg braster corfforol;
- pwysau'n amrywio;
- sgôr isel i'r carcass; a
- perfedd afiach gan gynnwys wlseri yn y stumog a'r coluddion.

135. Bydd bwyd o'r cydbwysedd iawn yn helpu i gadw'r moch yn iach a'u perfedd mewn cyflwr da. Gall fod yn straen ar fochyn gorfod addasu'n sydyn i fwyd newydd, a gall droi at frathu cynffonnau.

Mesurau amgylcheddol:

Lefelau cyfforddus o gynhesrwydd, ansawdd yr aer a goleuo

136. Mae angen amgylchedd sefydlog ar foch sydd cyn agosed â phosibl i'r tymheredd a'r lleithder delfrydol; bydd yn ddi-ddrafft ac â lefelau goleuo addas. Mae'n hynod bwysig cadw'r tymheredd iawn a chynnal ansawdd yr aer er mwyn ffrwyno lefelau stres. Os nad ydyn nhw'n gyfforddus, gall moch droi'n ymosodol a dechrau brathu cynffonnau, ystlysau a chlustiau. Gweler paragraffau 88 i 99.

137. Mewn tywydd oer, gall inswleiddiad, digonedd o sarn (deunydd gorwedd) neu system wresogi gadw'r moch yn gyfforddus o gynnes. Mewn tywydd twym, mae'r opsiynau'n cynnwys awyru, oeri lloriau, tarthu a diferu, cawodydd a phyllau llaid.

138. Mae rhwystro aer oer rhag llifo dros fannau cysgu yn bwysig hefyd yn ogystal â chadw

lefelau llwch ac amonia i lawr. Mae'n bwysig hefyd bod moch yn cael cilio o lygad yr haul. Mae goleuni di-dor yn achosi gofid ac mae wedi'i wahardd. Dylid osgoi goleuni llachar iawn. Er mwyn osgoi bod yn llygad yr haul, gallai'r ateb fod mor syml â gosod bleinds neu wyngalchu ffenestri. Mae cadw moch mewn hanner tywyllwch i atal ymladd yn aneffeithiol ac wedi'i wahardd. Gweler paragraff 99.

139. Mae sicrhau iechyd cyffredinol dda yn ffordd arall sy'n helpu i osgoi brathu cynffonnau. Mae mochyn afiach yn fochyn dan straen.

Dangosyddion cyflwr:

Iechyd a ffitrwydd

140. Dyma arwyddion o afiechyd a allai arwain at frathu cynffonnau:

- cynffon wedi'i brathu neu gynffon lipa;
- briwiau neu grafiadau ar y croen;
- aflonyddwch;
- cloffni;
- colli awydd bwyta;
- anadlu trwm, crynu, peswch, tisian, dolur rhydd;
- o faint corfforol annormal;
- cadw ei hun oddi wrth y lleill;
- sgil-heintiau ar y croen a necrosis ar glwyfau; a
- mwy o farwolaethau.

141. Mae'n bwysig bod gennych gynllun iechyd a lles a bod milfeddyg yn ymweld yn gyson er mwyn cynnal iechyd eich moch ac i rwystro clefydau ar y fferm/safle.

Cystadleuaeth

142. Dylai fod digon o le ym mhob corlan, gan ddibynnu ar y system a ddefnyddir, i osgoi cystadleuaeth. Er enghraifft, o ran bwyd a diod, dylai'r cafnau bwydo fod yn ddigon mawr a dylid darparu digon o offer yfed. Dyma arwyddion posibl o ddiffyg lle i gael bwyd/dŵr, a allai arwain at frathu cynffonnau:

- corff di-raen;
- moch o faintioli amrywiol yn y gorlan;
- briwiau ar groen y chwarteri ôl (cystadlu am fwyd);
- briwiau ar groen y chwarteri blaen (cystadlu am le);
- mwy ymosodol, er enghraifft, ymladd o gwmpas y manau bwydo;
- moch yn tyrru o gwmpas y manau bwydo; a
- moch heb wasgaru'n gyfartal o gwmpas y gorlan.

Darganfod, monitro a rheoli moch sy'n brathu cynffonnau

143. Os gwelir moch yn brathu cynffonnau neu ymddygiad anarferol, mae'n bwysig nodi'r rheswm posibl yn fuan:

- os medrwch, cywirwch y diffyg,
- symudwch y brathwr a symudwch y moch sy'n cael eu brathu a'u trin; a
- rhowch bethau eraill iddyn nhw wneud trwy ychwanegu deunydd cyfoethogi newydd fel rhaff, pren ffres neu wellt. Ystyriwch gadw cyflenwad o ddeunydd cyfoethogi at argyfyngau.

144. Dylid ystyried a chofnodi pob ffactor risg a dylech newid y drefn reoli yn y meysydd hynny lle gwelir bod risg. Gall brathu cynffonnau ledaenu'n gyflym trwy'r gorlan a gall yr anafiadau droi'n ddifrifol yn gyflym iawn.

145. Mae llawer o resymau posibl a hawdd eu hadnabod dros frathu cynffonnau ac er mwyn deall pam mae yna broblem, dylid datblygu ffordd systematig o fonitro a chofnodi digwyddiadau a'u hachosion posibl a'i gwneud yn rhan o'r cynllun iechyd a lles.
146. Os nad yw'r gwelliannau'n arwain at atal y moch rhag brathu cynffonnau, yna dylid ailasesu'r mesurau i weld a oes angen newidiadau eraill. Dylid holi barn milfeddyg yn ôl y gofyn i weld a ddylid tocio cynffonnau fel dewis olaf, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa.
147. Dylai parhau i ailasesu a nodi mesurau llwyddiannus tan y bydd y moch wedi rhoi'r gorau i frathu cynffonnau. Yna dylid datblygu cynllun gyda'r milfeddyg ar gyfer magu moch â chynffonnau heb eu tocio, ynghyd â chynllun wrth gefn ar gyfer delio â brathu cynffonnau yn y dyfodol.

Rhygnu / tocio dannedd

Mae Paragraff 6 o Atodlen 3 i Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn datgan:

6. Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Rhaid i'r driniaeth gynnwys y canlynol yn unig, sef lleihau'r dannedd cornel drwy naill ai eu rhygnu neu eu clipio gan adael arwyneb llyfn cyfan.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond os cymerwyd camau yn gyntaf i wella amgylchiadau amgylcheddol neu systemau rheoli er mwyn atal brathu cynffonnau ac arferion drwg eraill, ond y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod

tethi hychod neu glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi'u hanafu drwy frathu.

148. Mae perchyll yn cystadlu'n ffyrnig ag aelodau eraill y dorraid am deth benodol ar yr hwch. Gan fod perchyll yn cael eu geni â dannedd miniog, gallant anafu wynebau perchyll eraill a chadair yr hwch. Bydd yr anafiadau hynny'n llai os ydy'r hwch yn cynhyrchu digon o laeth ac os nad yw'r torraid yn anferth. Gallai maethu perchyll o dorraid fawr i hwch sydd â thorraid lai helpu i osgoi anafiadau. Gweler paragraffau 160 i 162.
149. Ni chaniateir clipio na rhygnu dannedd fel mater o drefn. Os oes yn rhaid tocio dannedd yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod, rhaid ei ystyried fel dewis olaf. Gall tocio dannedd fod yn boenus dros gyfnod byr a gallai achosi poen dros gyfnod hirach pe bai'r dannedd yn cael eu torri â thechneg wael. Gall arwain at heintiad lleol a heintio cymalau. Os ydy'r perchennog/ceidwad yn tocio dannedd ar y fferm, dylai'r cynllun iechyd a lles nodi'r amgylchiadau penodol pan y gallai fod angen tocio dannedd.
150. Dylid defnyddio tociwr miniog glân addas neu lyfnwr priodol. Dylai pob cyfarpar gael ei lanhau a'i ddiheintio rhwng toreidiau. Gall y naill ddull neu'r llall arwain at anafu neu heintio'r mochyn ond mae hynny'n dibynnu fwy ar allu'r triniwr na'r dull a ddefnyddir (clipio neu rygnu). Dylai'r rheini sy'n gwneud y gwaith hwn fod wedi cael eu hyfforddi a bod yn gymwys i wneud y dasg a dim ond blaenau'r dannedd ddylai gael eu clipio neu eu llyfnu.

Ysbaddu

Mae Paragraff 1 o Atodlen 3 i Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn datgan:

1. Ysbaddu

151. Dylai ceidwaid stoc bwyso a mesur yn ofalus a oes angen ysbaddu moch. Mae ysbaddu yn anffurfio'r corff a dylid ei osgoi os medrir. Rydym yn eich cyngori i ddefnyddio analgesia wrth ysbaddu perchyll llai na 7 niwrnod oed, nid dim ond moch sy'n 7 niwrnod oed neu'n hŷn. Gellir defnyddio dulliau heblaw ysbaddu, fel defnyddio brechlyn, er mwyn osgoi gadael i 'flas baedd' ddatblygu ar gig baeddod trymach.

Rhaid i'r dull a ddefnyddir beidio â chynnwys rhwygo meinweoedd.

Rhaid rhoi anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol pan fo'r anifail yn 7 niwrnod oed neu'n hŷn na hynny.

Adran 2 – Argymhellion penodol ychwanegol

Dylech ddarllen yr adran hon ynghyd ag Adran 1.

Hychod porchella a pherchyll

Mae Paragraffau 22 i 26 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

22. Rhaid rhoi triniaeth i hychod torrog a banwesod, os bydd angen, rhag parasitiaid allanol a mewnol.
23. Rhaid glanhau hychod torrog a banwesod yn drylwyr cyn eu rhoi mewn cratiau porchella.
24. Yn yr wythnos cyn yr adeg y disgwylir iddynt borchella rhaid rhoi digon o ddeunydd nythu addas i hychod a banwesod onid yw hynny'n annichonadwy yn dechnegol oherwydd y system slyri a ddefnyddir.

Cod Ymarfer er Lles Moch

25. Yn ystod y porchella, rhaid cael lle dirwysr y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes i hwyluso porchella yn naturiol neu gyda chymorth.
26. Mewn corlannau porchella lle cedwir hychod neu fanwesod yn rhydd, rhaid cael rhyw fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau porchella.

Mae Paragraffau 5(2) o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

5. (2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn —

(c) gweld moch eraill, ac eithrio—

(ii) yn ystod yr wythnos cyn yr amser porchella disgwylidig ac yn ystod porchella, pan ganiateir cadw hychod a banwesod o olwg moch eraill;

152. Dylai'r perchennog/ceidwad drefnu bwydo hychod a banwesod fel eu bod mewn cyflwr corfforol addas erbyn ei bod yn amser geni perchyll. Gweler paragraffau 53 a 54.
153. Dylid darparu deunydd nythu, os medrir, yn enwedig yn y 24 awr cyn geni'r perchyll er mwyn diwallu angen yr hwch i adeiladu nyth a thrwy hynny, lleihau'r stres arni. Dylai'r deunydd nythu fod yn ychwanegol i unrhyw ddeunydd cyfoethogi sydd eisoes wedi'i ddarparu. Gweler paragraffau 78 a 87.
154. Rhag lledaenu haint, dylai'r man porchella fod wedi'i ddylunio i gadw'r hwch a'i pherchyll yn lân a sych tan eu diddyfnu.

155. Mae angen yr hwch a'i pherchyll o ran gwres yn wahanol iawn a dylid rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amodau penodol ar y pryd.
156. Os defnyddir lampau neu wresogyddion uwchben, gofalwch eich bod yn eu gosod yn sownd ac yn eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau nad oes risg o dân ac na all yr hwch na'i pherchyll amharu arnyn nhw.
157. Mewn systemau porchella rhydd dan do, lle nad yw'r hwch wedi'i chyfyngu, dylai fod gan yr hwch ddigon i le i adeiladu nyth, i droi o gwmpas, i godi a gorwedd eto ac i allu mynd i'r man bwydo a'r man teilo heb drafferth. Rhaid gosod rheiliau neu ffordd arall o rwystro'r hwch rhag gorwedd ar ei pherchyll yn y gorlan. Dylai dyluniad y gorlan ganiatáu caethiwo'r hwch pan fydd angen trin y perchyll.

Mae Paragraffau 34 i 38 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

34. Pan ddefnyddir system crât porchella, rhaid darparu ffynhonnell gwres a man gorwedd solet, sych a chysurus i'r perchyll, i ffwrdd oddi wrth yr hwch lle gall pob un ohonynt orffwys ar yr un pryd.
35. Rhaid i ran o arwynebedd y llawr lle cedwir y perchyll, ac sy'n ddigon mawr i ganiatáu i'r anifeiliaid orffwys gyda'i gilydd ar yr un pryd, fod yn solet neu wedi ei gorchuddio â mat neu o dan laesodr gwellt neu ddeunydd addas arall.
36. Pan ddefnyddir crât porchella, rhaid i'r perchyll gael digon o le i'w galluogi i sugno yn ddidrafferth.
37. Yn ddarostyngedig i baragraff 38, rhaid peidio â diddyfnu perchyll oddi wrth yr hwch

pan fyddant yn iau nag 28 diwrnod oed oni fyddai peidio â gwneud hynny yn andwyol i les neu iechyd yr hwch neu'r perchyll.

38. Caniateir diddyfnu perchyll hyd at saith diwrnod ynghynt na'r cyfnod a bennir ym mharagraff 37 os symudir hwy i lety arbenigol—

(a) sy'n cael ei wagio, ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr cyn cymryd grŵp newydd i mewn; a

(b) sydd ar wahân i adeiladau lle y cedwir hychod eraill.

158. Yr amcan yw gwneud cratiau porchella yn ddiangenrhaidd ac i unrhyw system newydd ddiogelu lles yr hwch yn ogystal â lles ei pherchyll. Os cedwir hwch yn gaeth mewn crât porchella, dylai fod yn ddigon mawr i'w dal ac iddi allu codi a gorwedd heb drafferth a dylai fod yn hawdd mynd at y crât mewn argyfwng. Dylai'r crât fod yn ddigon hir i'r hwch allu geni perchyll. Dylid cadw'r hwch yn y crât am gyn lleied o amser â phosibl ar ôl geni'r perchyll. Os oes modd agor y crât porchella er mwyn gadael i'r hwch droi'n ddidrafferth, dylid gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac fel arfer o fewn pedwar diwrnod ar ôl geni'r perchyll, oni bai bod rheswm iechyd a lles dros beidio â gwneud hynny.
159. Dylai'r perchennog/ceidwad ac unrhyw staff fod yn brofiadol ac yn gymwys yn nhechnegau geni perchyll a'r system borchella a ddefnyddir (rhydd neu mewn crât). Mae glanhau, diheintio a hylendid yn hanfodol wrth eni perchyll a dylid nodi yn y cynllun iechyd a lles yr hyn a wneir i helpu'r hwch i eni'r perchyll.

Maethu

160. Dylid nodi yn y cynllun iechyd a lles y trefniadau ar gyfer sicrhau bod anghenion y perchyll a'r hwch wedi'u hystyried yn ofalus wrth faethu perchyll. Dylai hynny gynnwys mesurau addas i leihau'r risg i'r perchyll farw a rhwystro clefydau rhag eu cyflwyno a'u lledaenu. Dylai'r perchyll fod wedi cael digon o laeth tor (colostrwm) a byddant o oed a maint addas ar gyfer eu maethu. Bydd angen ystyried lles y perchyll eraill yn y torraid, gan gynnwys yr angen i osgoi ymladd a chystadleuaeth.
161. Dylai'r hwch fod mewn cyflwr corfforol addas a bydd ganddi ddigon o dethi sugno a llaeth i allu bwydo'r perchyll heb gystadleuaeth a heb anafu'i thethi.
162. Os defnyddir systemau maethu artiffisial sy'n darparu llaeth artiffisial, efallai mai'r perchyll mwyaf a chryfaf fyddai fwyaf addas ar gyfer y system honno. Rhaid dilyn y mesurau glendid llymaf wrth ddefnyddio peiriannau llaeth awtomatig ar gyfer moch a dylid defnyddio llaeth artiffisial o ansawdd uchel sydd wedi'i wneud yn benodol ar gyfer moch.

Perchyll diddwyn a moch magu

Mae Paragraff 43 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

43. Rhaid i'r arwynebedd llawr dirwystr sydd ar gael i bob porchell diddwyn neu fochyn magu a gedwir mewn grŵp fod o leiaf yn—
- (a) 0.15 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn 10 kg neu lai;
- (b) 0.20 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 10 kg, ond yn llai na neu'n hafal i 20 kg;

- (c) 0.30 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 20 kg ond yn llai na neu'n hafal i 30 kg;
- (d) 0.40 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 30 kg ond yn llai na neu'n hafal i 50 kg;
- (e) 0.55 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 50 kg ond yn llai na neu'n hafal i 85 kg;
- (f) 0.65 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 110
- (g) 1.00 m² ar gyfer pob mochyn pan fo pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 110 kg.

163. Rhaid darparu o leiaf yr arwynebedd a nodir yn y blwch uchod. Gan ddibynnu ar y math o lety, ei ddyluniad a sut y mae'n cael ei reoli, efallai y bydd angen neilltuo mwy o le. Dylid cadw golwg ar newidiadau yn y dwysedd stocio a'u cofnodi yn y cynllun iechyd a lles. Dylai'r man gorwedd, heb gynnwys y manau teilo, fod yn ddigon mawr i'r holl foch allu gorwedd ar eu hochr yr un pryd.
164. Os yw rhan o'r darn dirwystr ar lefel arall, er enghraifft, system balconi ar gyfer perchyll diddwyn, rhaid i'r dyluniad gydymffurfio â holl ofynion y ddeddfwriaeth lles, gan gynnwys:
- llawr addas yn ôl oed y mochyn;
 - na fydd risg i ffitiadau na gosodiadau newydd, gan gynnwys rampiau, achosi anafiadau;

- lefel oleuo ofynnol yn y mannau sydd wedi'u gorchuddio;
 - system sy'n sicrhau nad oes tail nac wrin yn cael cwmpo ar y moch o dan y balconi;
 - system sy'n gadael i'r holl foch fynd i bob rhan ohoni; a
 - bod modd i'r perchennog/ceidwad archwilio'r holl foch bob amser a chymryd moch sâl neu anafus o'r system heb eu hanafu.
165. Os gwelir wrth ddylunio corlan newydd bod angen cyngor ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith, argymhellir y dylech yn gyntaf drafod y mater gyda milfeddyg neu gynghorydd technegol. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i APHA am asesiad.

Cymysgu moch ac atal ymladd

Mae Paragraffau 39 i 42 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

39. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl diddyfnu, rhaid cadw perchyll diddwyn a moch magu mewn grwpiau sefydlog, gyda chyn lleied ag y bo modd o gymysgu.
40. Os oes rhaid cymysgu moch sy'n anghyfarwydd â'i gilydd —
- (a) dylid gwneud hynny os yn bosibl cyn diddyfnu neu cyn pen un wythnos ar ôl diddyfnu neu, fel arall, pan fo'r moch mor ifanc ag y bo modd; a
 - (b) rhaid rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddianc a chuddio rhag moch eraill.
41. Rhaid i'r arfer o ddefnyddio meddyginiaeth tawelu i hwyluso cymysgu gael ei gyfyngu i

amodau eithriadol, a hynny yn unig ar ôl ymgynghori â milfeddyg.

42. Os oes arwyddion o ymladd difrifol, rhaid ymchwilio i'r achosion ar unwaith a chymryd camau priodol.

166. Dylai'r cynllun iechyd a lles gynnwys cynllun ar gyfer cymysgu moch a chreu grwpiau o foch a chadw moch ymosodol ar wahân, lle bo angen. Dylid ceisio osgoi cymysgu moch, o'r cyfnod diddyfnu i'r cyfnod pesgi. Ni ddylid defnyddio pasej fel uned ynysu barhaol oni bai ei fod wedi'i addasu'n briodol. Rhaid peidio â rhoi moch ymosodol gyda moch sâl neu wedi'u hanafu.
167. Ar gyfer moch sy'n cael eu pesgi i'r pwysau trymaf, dylai'r perchennog/ceidwad ystyried eu rhannu yn ôl eu rhyw ar ôl eu diddyfnu os oes pryderon y gallai eu cadw gyda'i gilydd sbarduno ymddygiad rhywiol dieisiau ac ymddygiad ymosodol ymysg y baeddod wrth i fanwesod ddod i ofyn baedd.
168. Gall ymosodedd fod yn broblem ddifrifol pan fydd baeddod a hychod neu fanwesod yn cael eu cadw mewn grwpiau. Dylid ystyried natur yr anifail unigol wrth reoli grwpiau. Mae sicrhau digon o le a chyfleoedd i foch symud oddi wrth foch ymosodol yn arbennig o bwysig wrth gymysgu moch bridio. Dylai'r cynllun iechyd a lles nodi'r mesurau i'w cymryd wrth gofnodi ac atebion i broblem bwlian parhaus. Rhaid cymryd anifeiliaid sy'n cael eu bwlian yn gas a'r rheini sy'n bwlian yn barhaus o'r grŵp.

Hychod sych a banwesod

Mae Paragraffau 27 i 33 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

- 27. Rhaid cadw hychod a banwesod mewn grwpiau ac eithrio yn ystod y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y diwrnod porchella disgwylledig a'r diwrnod y cwblheir diddyfnu'r perchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll sy'n cael eu maethu).
- 28. Rhaid i hyd ochrau'r gorlan lle y cedwir y grŵp fod yn fwy na 2.8 m, ac eithrio pan fo'r grŵp yn cynnwys chwe unigolyn neu lai, ac os felly rhaid i hyd ochrau'r gorlan beidio â bod yn llai na 2.4 m.
- 29. Pan gedwir banwesod a/neu hychod mewn grwpiau, rhaid i'r arwynebedd llawr dirwysr sydd ar gael i bob banwes ar ôl serfio ac i bob hwch, yn eu trefn, fod yn 1.64 m² o leiaf a 2.25 m² o leiaf. Pan gedwir yr anifeiliaid hyn mewn grwpiau o chwe unigolyn neu lai, rhaid cynyddu yr arwynebedd llawr dirwysr 10%. Pan gedwir yr anifeiliaid hyn mewn grwpiau o 40 neu ragor o unigolion, caniateir lleihau yr arwynebedd llawr dirwysr 10%.
- 30. Ar gyfer banwesod ar ôl serfio a hychod torrog, rhaid i ran o'r arwynebedd sy'n ofynnol o dan baragraff 29, ac yn hafal i 0.95 m² o leiaf am bob banwes ac 1.3 m² o leiaf am bob hwch, fod yn llawr solet di-dor sydd ag uchafswm o 15% ohono wedi ei neilltuo ar gyfer agoriadau draenio.
- 31. Ar ddaliadau o 10 hwch neu lai, caniateir cadw hychod a banwesod yn unigol, ar yr amod bod eu llety yn cydymffurfio â gofynion paragraffau 5 a 6 o'r Atodlen hon.

- 32. Yn ychwanegol at ofynion paragraff 13 o'r Atodlen hon, rhaid i hychod a banwesod gael eu bwydo trwy ddefnyddio system sy'n sicrhau y gall pob unigolyn gael digon o fwyd hyd yn oed pan fo cystadleuwyr am y bwyd yn bresennol.
- 33. Rhaid rhoi cyflenwad digonol o swmpfwyd neu fwyd ffibr uchel yn ogystal â bwyd ynni uchel i bob hwch dorrog hesb a banwes, i fodloni eu chwant bwyd a'u hangen i gnoi.
- 169. Ceir llawer o wahanol fathau o systemau bwydo. Dylai system fwydo amcanu at leihau stres ac ymosodedd ar adegau bwydo, a darparu'r swm cywir o fwyd. Gall amser bwydo sbarduno ymosodedd os nad yw hychod a/neu fanwesod yn yr un adeilad neu grŵp yn cael eu bwydo yr un pryd. Yr eithriad i hyn yw system sy'n caniatáu i hwch ddewis pryd mae'n bwyta. Wrth fwydo grwpiau o hychod neu fanwesod â llaw, mae'n bwysig ceisio lleihau'r amser rhwng bwydo'r anifail cyntaf a bwydo'r anifail olaf a hefyd gwasgaru'r bwyd i sicrhau bod holl aelodau'r grŵp yn cael eu dogn yr un pryd heb ymyrraeth gan foch eraill.
- 170. Pan ddefnyddir corau (stalau) bwydo unigol sy'n cloi eu hunain, ni ellir eu cyfrif fel rhan o'r arwynebedd llawr y gellir ei ddefnyddio oni bai bod modd mynd iddynt bob amser ac nad ydynt wedi'u cau a than glo. Rhaid neilltuo lle ar wahân lle gall y moch orwedd gyda'i gilydd fel grŵp. Gweler y blwch am lety yn dilyn paragraff 72.
- 171. Rhaid cynnal a chadw systemau bwydo mecanyddol a chyfrifiadurol yn rheolaidd. Dylid cadw golwg yn rheolaidd ar faint o fwyd sy'n cael ei roi.

172. Dylid asesu cyflwr corfforol hychod a banwesod yn rheolaidd, waeth pa system a ddefnyddir. Gweler paragraff 53, 54 a 152.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth hon ond pan fo tystiolaeth i ddangos ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal anifeiliaid eraill rhag cael eu hanafu neu am resymau diogelwch.

Baeddod

Mae Paragraffau 19 i 21 o Atodlen 8 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

19. Rhaid lleoli ac adeiladu corlannau baeddod fel y gall y baedd droi o amgylch a chlywed, gweld ac aroglu moch eraill, a rhaid iddynt gynnwys mannau gorffwys glân.
20. Rhaid i'r man gorffwys fod yn sych ac yn gysurus.
21. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i arwynebedd dirwystr lleiaf y llawr ar gyfer baedd fod yn 6m².
- (2) Pan ddefnyddir corlannau baeddod hefyd ar gyfer serfio naturiol, rhaid i arwynebedd y llawr fod yn 10m² o leiaf a rhaid iddo fod yn rhydd rhag unrhyw rwystrau

Mae Paragraff 7 o Atodlen 3 i Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn datgan:

7. Tocio ysgithrau

173. Dylai'r waliau rhwng corlannau fod yn ddigon uchel i atal baeddod rhag dringo a/neu neidio i mewn i gorlannau cyfagos. Dylid lleoli corlannau fel bod baeddod yn gallu gweld moch eraill. Ni ddylai'r perchennog/ceidwad fynd i gorlan baedd heb fwrdd mochyn a rhaid bod modd dianc o'r gorlan yn rhwydd os bydd y baedd yn troi'n ymosodol.
174. Os caiff y baedd ei gadw gyda hychod neu faeddod eraill, rhaid cymryd camau i'w hatal rhag ymladd yn ormodol, yn enwedig amser bwydo. Os gwelir arwyddion ymladd difrifol, rhaid ymchwilio i'r achosion ar unwaith a chymryd camau priodol i'w atal. Gweler paragraffau 166 i 168.
175. Yn gyffredinol mae baeddod yn cael eu cadw mewn corlannau ar eu pen eu hunain ac mae arnynt angen naill ai digon o sarn (deunydd gorwedd) neu dymheredd amgylcheddol sy'n cael ei reoli'n fanwl. Gall eithafion tymheredd arwain at anffrwythlondeb dros dro ac fe all effeithio ar barodrwydd baedd neu ei allu i weithio'n foddhaol. Fel canllaw, dylai fod gan faedd llawndwff gorlan byw o o leiaf 7.5m² o lawr. Mewn corlan sydd wedi'i bwriadu at ddibenion paru, dylid cadw'r llawr i gyd yn sych neu ddarparu digon o sarn i roi gafael digonol i'r baedd wrth iddo serfio hwch.

Moch sy'n cael eu cadw mewn systemau awyr agored

Cyffredinol

176. Waeth faint o foch a gedwir, mae systemau awyr agored yn sensitif iawn i ffactorau amgylcheddol na ellir eu rhagweld ac i risg cyflwyno clefydau y tu allan i reolaeth y perchennog/ceidwad. Rhaid felly wrth ragor o gynllunio wrth gefn.

Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

17. Pan na chedwir anifeiliaid mewn adeiladau, rhaid eu hamddiffyn pan fo angen a phan fo'n bosibl rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd, a rhaid iddynt gael cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda

177. Wrth baratoi safleoedd newydd neu ddefnyddio adeiladau at ddibenion newydd, dylid ystyried darparu'r bwlch mwyaf posibl rhwng y safle arfaethedig a safleoedd sy'n bod eisoes gan y byddai hynny'n lleihau'r risg o ledaenu clefydau heintus yn yr aer ac yn lleol.

178. Rhaid i foch sy'n cael eu dewis ar gyfer system awyr agored fod yn addas ar gyfer amodau awyr agored. Dylid ystyried genoteip, oed, cyflwr, eu llety yn y gorffennol a sut y maent yn gyfarwydd â chael eu rheoli wrth symud stoc i system awyr agored.

179. Dylid dewis safleoedd ar gyfer mentrau moch awyr agored yn ofalus. Ardaloedd o bridd â draeniad da, sydd â glawiad isel gydag ond ychydig o rew yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer

cadw moch yn awyr agored. Gall arbenigwyr roi cyngor ar safle cyn dod â'r moch i'r tir, o ran eu heffaith ar yr amgylchedd, addasrwydd y safle ar gyfer moch a'r da byw sydd wedi defnyddio'r tir yn y gorffennol. Dylai fod safle dilynol ar gael.

180. Rhaid i'r dwysedd stocio fod yn addas i'r safle a'r system reoli. Dylai'r cynllun iechyd a lles gynnwys strategaeth ar gyfer delio â phroblemau â'r tywydd megis darparu dŵr ar adeg o sychder neu pan fydd hi'n rhewi a darparu bwyd i'r safle ac i'r padogau mewn eira neu dywydd gwlyb difrifol.

Tylcau

181. Dylid darparu deunydd gorwedd sy'n addas i'r amser o'r flwyddyn yn y twlc awyr agored a ddefnyddir, boed yn fwa, cwt neu babell, a dylai fod gan y moch le cynnes heb ddrafft i orwedd ynddo. Mae hyn yn arbennig o bwysig i hwch a'i thorraid adeg ei geni ac yn ystod y cyfnod sugno ac i foch sydd newydd eu diddyfnu.

182. Dylai'r perchennog/ceidwad gynnal a chadw'r twlc a'r offer awyr agored a gofalu nad oes ymylon miniog allai anafu'r anifeiliaid.

183. Rhaid darparu cysgod digonol hefyd i amddiffyn y moch rhag tywydd eithafol. Dylai twlc awyr agored fod wedi'i gysylltu'n sownd yn y llawr os gall fod yn fregus mewn gwyntoedd cryf a dylid gallu symud y fynedfa os bydd cyfeiriad y gwynt yn newid.

184. Dylid ceisio osgoi caniatáu gwlybanaeth yn y twlc trwy ddewis safle gwell a rheoli'r sarn yn well.

185. Rhaid darparu digon o gysgod hefyd i amddiffyn y moch rhag llosg haul, er enghraifft, trwy ddarparu cysgod a phyllau llaid. Dylid gosod caeadau yn y pen gyferbyn â drws y twlc er mwyn i'r aer allu llifo trwyddo.

186. Pan fydd tywydd twym, gallai hychod sy'n llaetha gael eu denu i adael y llety porchella i chwilio am le mwy cyfforddus y tu allan gan adael eu perchyll am gyfnodau hir o'r dydd.

Dylai'r perchennog/ceidwad ystyried sut i drefnu bod gan yr hwch le cyfforddus i fwydo'i pherchyll mewn lle oerach. Dylai fod yna nifer o opsiynau er mwyn gallu rheoli'r twlc porchella i godi neu ostwng ei dymheredd, gan gynnwys awyru gwell, mwy o inswleiddiad neu fwy o sarn.

187. Dylid adeiladu'r twlc porchella ar dir gwastad a rhoi sarn addas ynddo. Dylid defnyddio byrddau atal addas i rwystro perchyll ifanc iawn rhag crwydro pan fyddant yn ifanc iawn.
188. Pan gesglir moch mewn man crynhoi cyn eu cludo, dylai fod yn lân gyda digon o ddŵr yfed a dylid ei weithio ar sail 'pawb i mewn - pawb allan'.

Bwyd a dŵr

189. Dylid darparu bwyd a diod gan sicrhau bod anghenion anifeiliaid unigol yn cael eu diwallu. Dylai'r perchennog/ceidwad fonitro cyflwr corfforol y moch yn ofalus a newid y bwyd yn ôl yr angen. Rhaid wrth ragor o ofal yn ystod tywydd eithafol.

Ffensio

190. Dylid dylunio, adeiladu, defnyddio a chynnal ffensys trydan yn briodol, fel na fydd anifail sy'n dod i gysylltiad â nhw yn teimlo anghysur am fwy nag eiliad. Rhaid i bob uned bŵer ar gyfer ffensys trydan gael ei daearu'n briodol rhag siortio neu ddargludo trydan i rywle na ddylai gael mynd, er enghraifft, gatiau a chafnau dŵr.
191. Dylai stoc newydd sydd ddim yn gyfarwydd â ffensys trydan gael eu cadw mewn padog hyfforddi gyda ffensys diogel i sicrhau na fyddant yn gallu dianc o'r uned.
192. Dylid ystyried rhaglen i atal anifeiliaid ysglyfaethus a'i hadolygu'n rheolaidd a dylid ystyried ffens atal cadnoid/llwynogod. Gweler paragraff 19.

Modrwyo trwynau (cwirso)

Mae Paragraff 4 o Atodlen 3 i Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn datgan:

4. Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nas cedwir yn barhaus mewn system hwsmona dan do.

193. Caiff y fodrwy trwyn (cwirsen) ei defnyddio ambell waith pan fydd angen cadw'r gorchudd o borfa am resymau lles ac amgylcheddol. Ond mae modrwyo'n fath o anffurfio a dylid ceisio ei osgoi os medrir, gan ei fod yn atal ymddygiad naturiol mochyn i dyrchu a gallai amharu ar ei allu i ddefnyddio offer bwydo Ni ddylid modrwyo baeddod. Pan welir bod angen modrwyo mochyn, person sydd wedi'i hyfforddi'n gymwys ddylai ei wneud.
Dylid glanhau a diheintio offer.

Atodiad 1: Y ddeddfwriaeth

Rydym wedi crynhoi'r prif ofynion isod. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a dylech nodi bod rhai deddfau'n cael eu diweddarau a/neu eu diwygio'n rheolaidd. I weld holl ddeddfwriaeth y DU, ewch i: <http://www.yddeddfwriaeth.gov.uk>

Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/content>
S

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/3070/contents/made/welsh>

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/3070/contents/made/welsh>

Adrannau penodol:

Cyflwyniad:

Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976:
legislation.gov.uk/ukpga/1976/38

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020: [Gosoder y ddolen](#)

Rheoli clefydau a bioddiogelwch:

Gorchymyn Moch (Cofnodi, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 Rhif OS 2830. 2830:
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2830/content/s/made/welsh>

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 Rhif Os 2379. 2379:
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2379/content/s/welsh>

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981: :
<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/22>

Cynlluniau wrth gefn i ddelio â chlefydau ac argyfyngau eraill:

Rheoliadau Clefydau Moch 2014/1894 (trwy Brydain Fawr) – yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer rheoli tri phrif glefyd:
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1894/contents>

Gorchymyn Clefyd Aujeszky 1983:
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/1983/344/content/s/made/welsh>

Llwytho, dadlwytho a chludo:

Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007:<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1047/contents/made/Welsh> (Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 (amddiffyn anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau perthynol)

Marcio:

Gorchymyn Moch (Cofnodi, Adnabod, Symud) (Cymru) 2011. Gweler erthygl 6:
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2830/erthygl/6/made/welsh>

(Hefyd, gweler deddfwriaeth anffurfio/triniaethau a ganiateir isod)

Lladd ar y fferm:

Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014:
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/951/contents/made/welsh> - yn rhoi'r sail gyfreithiol yng Nghymru ar gyfer gofynion o dan Reoliadau'r Cyngor (EC) rhif 1099/2009 ar amddiffyn anifeiliaid adeg eu lladd a chynhwysir hefyd reolau cenedlaethol ychwanegol.

(Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd). Gweler hefyd Bennod II erthygl 3 paragraffau 1 a 2 (Gofynion cyffredinol ar gyfer lladd a gweithrediadau perthynol) a Phennod III erthygl 19 (Lladd mewn argyfwng)).

Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014:
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/517/made/welsh/data.html> - yn rhoi'r sail gyfreithiol ar gyfer gofynion rheoliad yr UE EC1069/2009 sy'n ymdrin â'r mesurau ar gyfer rheoli gwaredu a Rheoliad y Comisiwn (UE) rhif 142/2011 ar gyfer gofynion yr UE ar gyfer storio, cludo a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel carcasau, tail a sarn.

Defnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol a chadw cofnodion:

Yn ôl Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013, mae gofyn i geidwaid anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd gadw cofnodion o'r moddion maen nhw'n eu prynu, eu rhoi, eu defnyddio a'u gwaredu. Rhaid cadw cofnodion ynghylch caffael cynnyrch am o leiaf 5 mlynedd ar ôl rhoi'r cynnyrch neu ei waredu. Mae'r Rheoliadau'n disgrifio hefyd y system 'raeadru', dyletswyddau cyflenwyr meddyginiaethau a'r cofnodion y mae gofyn iddynt eu cadw, gan gynnwys milfeddygon preifat (gweler rheoliadau 19 (1 i 3) ac 20 Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol):

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/2033/content>
s

Disgrifir gofynion eraill o ran cadw cofnodion yn Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Gweddillion Uchaf) (Cymru) 1999, rheoliad 32:
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/569/made/welsh>

(Rheoliad y Comisiwn (UE) rhif 37/2010 ar sylweddau sy'n actif yn ffarmacolegol a'u dosbarthiad yn ôl terfynau gweddillion uchaf mewn bwyd anifeiliaid sy'n deillio o anifeiliaid)

Anffurfio:

Mae Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) Cymru 2007 yn caniatáu trwy eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006, i filfeddygon a phobl eraill a ganiateir i gynnal triniaethau o dan^{115} Ddeddf Milfeddygon 1966 neu Orchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 1962, gynnal rhai triniaethau ar anifeiliaid penodol, gan gynnwys moch.

Deddf Milfeddygon 1966:
<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1966/36>

Gorchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 1962:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/1962/2557/made>

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007:
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/3070/content>
s/made/welsh

- b) mewn dull sy'n cadw lefel y boen a'r dioddefaint i'r anifail i leiafswm

Atodiad 2: Triniaethau a ganiateir

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gwahardd anffurfio moch, yn gyffredinol. Disgrifir yr eithriadau i'r gwaharddiad hynny yn Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1029/contents/made/welsh> ac fe'u hatgynhychir isod (i'r graddau eu bod yn berthnasol). Roedd y rhestr yn gywir adeg ei chyhoeddi.

Triniaethau adnabod:

- Clipio clustiau.
- Nodi clustiau.
- Tagio clustiau.
- Gosod microsglodion.
- Rhoi tatŵ.
- Dulliau adnabod eraill sy'n golygu anffurfio sy'n ofynnol o dan y gyfraith.

Triniaethau rheoli atgenhedlu:

- Ysbaddu.
- Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.
- Fasdoriad.

Triniaethau rheoli eraill:

- Modrwy trwynau (cwirso).
- Tocio cynffonnau.
- Rhygnu dannedd.
- Tocio ysgithrau.

Rhaid cynnal y triniaethau canlynol sydd wedi'u heithrio:

- a) yn unol â'r gofynion perthnasol yn Atodlen 3 y Rheoliadau (gweler isod):

- c) mewn amgylchiadau hylan; ac
- d) yn unol ag arferion da;
- e) yn achos rhai triniaethau, gan berson a ganiateir i wneud hynny gan reoliad 5 y Rheoliadau.

Disgrifir y gofynion sy'n ymwneud â thriniaethau penodol ar foch yn Atodlen 3 y Rheoliadau, ac fe'u nodir isod. Mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys (fe'u cymerwyd o reoliad 2 y Rheoliadau):

- ystyr "a ffermir" ("*farmed*") yw, o ran anifail, a fegir neu a gedwir at gynhyrchu bwyd, gwlân neu groen neu at ddibenion ffermio eraill;
- ystyr "triniaeth waharddedig" ("*prohibited procedure*") yw triniaeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif neu strwythur esgyrn yr anifail heblaw at ddibenion ei drin yn feddygol;

Y gofynion sy'n ymwneud â thriniaethau penodol yw:

• Ysbaddu

Rhaid i'r dull a ddefnyddir beidio â chynnwys rhwygo meinweoedd.

Rhaid rhoi anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol pan fo'r anifail yn 7 niwrnod oed neu'n hŷn na hynny.

• Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

• Fasdoriad

Rhaid rhoi anesthetig.

• Modrwy trwynau (cwirso)

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nas cedwir yn barhaus mewn system hwsmona dan do.

- **Tocio cynffonnau**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond os cymerwyd camau yn gyntaf i wella amgylchiadau amgylcheddol neu systemau rheoli er mwyn atal brathu cynffonnau, ond y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod y moch wedi'u hanafu gan frathu cynffonnau.

Rhaid i'r dull a ddefnyddir gynnwys torri'r gynffon yn gyflym ac yn llwyr.

Rhaid rhoi anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol pan fo'r anifail yn 7 niwrnod oed neu'n hŷn na hynny.

- **Lleihau dannedd**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond i anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed.

Rhaid i'r driniaeth gynnwys y canlynol yn unig, sef lleihau'r dannedd cornel drwy naill ai eu rhygnu neu eu clipio gan adael arwyneb llyfn cyfan.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond os cymerwyd camau yn gyntaf i wella amgylchiadau amgylcheddol neu systemau rheoli er mwyn atal brathu cynffonnau ac arferion drwg eraill, ond y mae tystiolaeth o hyd i ddangos bod tethi hychod neu glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi'u hanafu drwy frathu.

- **Tocio ysgithrau**

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth hon ond pan fo tystiolaeth i ddangos ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal anifeiliaid eraill rhag cael eu hanafu neu am resymau diogelwch.

Ffynonellau rhagor o wybodaeth

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ffynonellau hyn o ragor o wybodaeth ac ni ddylid meddwl eu bod yn rhan o'r Cod Ymarfer. Roedd y ffynonellau gwybodaeth hyn yn gyfredol ar ddiwrnod cyhoeddi'r Cod hwn (gweler y dyddiad cyhoeddi ar y dudalen olaf). Gallai unrhyw rai o'r ffynonellau gwybodaeth hyn newid. **Cyngor Ewrop**

https://www.coe.int/t/e/legal_affairs/legal_cooperation/biological_safety_and_use_of_animals/farming/Rec%20pigs%20rev%20E%202004.asp

Gwybodaeth Comisiwn yr UE ar les anifeiliaid, gan gynnwys canllawiau ar docio cynffonnau:

https://ec.europa.eu/food/animals/welfare/practice/farm/pigs_en

Adrannau penodol:

Rhagair

Moch a gedwir fel anifeiliaid anwes

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gymwys i foch a gedwir mewn cyflwr wedi'i ddomestigeiddio, gan gynnwys "microfoch", "teacup pigs" a "minifoch" fel y'u gelwir. Dylai'r perchennog/ceidwad sicrhau ei fod yn gwybod pa fath o fochyn y mae'n ei brynu er mwyn darparu amgylchedd byw addas ar ei gyfer. Dylai'r perchennog/ceidwad ddeall holl anghenion y mochyn a medru eu diwallu cyn prynu'r mochyn.

Bydd unrhyw un sy'n cadw mochyn yn gorfod gofyn i Taliadau Gwledig Cymru am rif CPH. Rhaid cofrestru'r lle y caiff y mochyn ei gadw ynddo gydag APHA o fewn mis wedi i'r mochyn gyrraedd. Wedi'i gofrestru, bydd APHA yn rhoi marc cenfaint fydd yn benodol i'r CPH. Rhaid defnyddio marc y genfaint i adnabod y mochyn wrth ei symud oddi ar yr eiddo (er bod rhai eithriadau i hyn). Bydd rhaid cael trwydded gan APHA os ydych am fynd â'r mochyn am dro ar hyd llwybrau penodol a chymeradwy y tu allan i'r eiddo. Rhaid rhoi tag neu datw ar y mochyn i'r perwyl hwn. Bydd yn rhaid adnewyddu'r drwydded bob blwyddyn. Ni fydd gofyn i'r perchennog/ceidwad roi gwybod i APHA cyn symud mochyn i filfeddygfa i gael triniaeth frys. Am

wybodaeth fanylach am bob un o'r agweddau hyn, ewch i:

<https://llyw.cymru/trwydded-symud-cyffredinol-moch>

<https://www.gov.uk/guidance/keeping-a-pet-pig-or-micropig>

Llawlyfr AHDB i geidwaid moch newydd sydd am gynhyrchu ar lefel fach:

https://ahdb.org.uk/knowledge-library/new-pig-keepers-guide?cldee=c3Rld2FydEBtcHNhZ3JpLmNvLnVr&recipientid=con+act-bb33f63d68dfe311b7c50050569b73fc618348345aba4cd08c59f56649692103&es_id=62075503-4ec3-e911-80e4-005056b864bf

Nid yw moch anwes wedi'u heithrio rhag y rheolau ynghylch defnyddio meddyginiaethau mewn anifeiliaid. Gweler Atodiad 1 am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â defnyddio meddyginiaethau.

Peidiwch â rhoi i fochyn anwes unrhyw fwyd gwastraff na chrafion o gegin gartref na chegin sefydliad arlwygo gan gynnwys tai bwyta a cheginau masnachol sy'n cynhyrchu bwyd fegan, a pheidiwch byth â rhoi cig neu gynnyrch sy'n cynnwys cig o unrhyw fath iddynt. **<https://www.gov.uk/guidance/supplying-and-using-animal-by-products-asfarm-animal-feed>**. Diben y rheol hon yw rheoli clefydau. Os nad yw'r perchennog/ceidwad yn siŵr o'r cyfyngiadau ar y math o fwyd y mae'n cael ei fwydo i foch, yna dylai gysylltu ag APHA am wybodaeth. Dyma wybodaeth benodol ar gyfer perchennogion moch, gan gynnwys moch anwes: **<http://apha.defra.gov.uk/documents/surveillance/diseases/african-swine-feverposter.pdf>**

Rheoli clefydau a bioddiogelwch:

Llawlyfr APHA ar gofrestru cyn cadw moch:
Symudiadau: **<https://llyw.cymru/adnabod-symud-moch-canllawiau>**

Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014. Am ragor o wybodaeth am sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gweler: **<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/517/made/welsh>**

Llawlyfr AHDB ar reoli llygod ac ati, sy'n cynnwys defnyddio mesurau rheoli plâu, mewn unedau dan do ac unedau awyr agored: **<https://www.growtrain.co.uk/wp-content/uploads/2016/01/AHDB-RodentStrategy-Guide-2015-Final.pdf>**

Gwybodaeth gan y Gymdeithas Foch Genedlaethol 'MuckFreeTruck': **http://www.npa-uk.org.uk/MuckFreeTruck_campaign_launched_to_encourage_better_lorry_washing.html**

Llwytho, dadlwytho a chludo:

<https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid-wrth-gludo>

Marcio:

<https://www.gov.uk/guidance/pig-keepersidentify-animals-before-moving-them>

Ymladd ac ymddygiad ymosodol:

Mae cyrff diwydiannol a sefydliadau academiaidd fel AssureWel wedi paratoi protocolau hawdd eu cael ynghylch sut orau i gofnodi a monitro ymddygiad ymosodol/marciau ar y corff: **<http://www.assurewel.org/pigs>**

Gofalu am anifeiliaid sâl ac wedi'u hanafu:

Mae'r Casualty Pig Guide, a gynhyrchwyd gan Gymdeithasol y Milfeddygon Moch, yn rhoi rhagor o wybodaeth: <https://www.pigvetsoc.org.uk/files/document/192/Casualty%20Pig%20-%20April%202013-1.pdf>

Lladd ar y fferm:

<https://www.gov.uk/guidance/knackers-yardsand-farms-restraining-stunning-killing-animals>

<https://www.gov.uk/government/collections/welfare-of-animals-at-the-time-of-killing>

<https://www.gov.uk/guidance/supplying-and-using-animal-by-products-as-farm-animal-feed>

<https://www.gov.uk/government/collections/guidance-for-the-animal-by-product-industry>

Canllaw ar ladd da byw gartref a deddfwriaeth diogelwch bwyd:

<https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/home-killguide.pdf> Responsible medicines usage and record keeping:

Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol: gov.uk/government/organisations/veterinary-medicines-directorate

The Cascade: Prescribing unauthorised medicines <https://www.gov.uk/guidance/the-cascade-prescribing-unauthorised-medicines>

Am ragor o wybodaeth am ddefnyddio gwrthfotigau a brechlynnau mewn ffordd gyfrifol er lles moch, gweler Responsible Use of Medicines in Agriculture: <http://www.ruma.org.uk/pigs/>

Mae AHMD Pork a'r VMD wedi creu fersiwn ar-lein o'r llyfr cofnodi meddyginiaethau ar wefan e-MB-Pigs: <https://pork.ahdb.org.uk/health-welfare/health-antimicrobial-usage/>

[welfare/health-antimicrobial-usage/](https://pork.ahdb.org.uk/health-welfare/health-antimicrobial-usage/) <https://emb-pigs.ahdb.org.uk/>

Llety - Lloriau:

Fe welwch wybodaeth am y safonau perthnasol ar gyfer cynhyrchu lloriau conchrid ar gyfer siediau moch BS EN 12737:2004 + A1: 2007 yn y tabl isod:

Math	Lled Lleiaf y Trawst (estyll)	Lled Mwyaf yr Agoriad (bwlch/)	Goddefiant: y gwyriad mwyaf a ganiateir
Porchell	50mm	11mm	Dim goddefiant
Diddwfn	50mm	14mm	+/- 2mm
Magu	80mm	18mm	+/- 3mm
Banwes	80mm	20mm	+/- 3mm
Hwch	80mm	20mm	+/- 3mm
Baedd	80mm	20mm	+/- 3mm

Cyfoethogi amgylchedd:

Mae AHDB Pork wedi cynhyrchu canllaw arall ar gyfer ceidwaid moch ar wefan AHDB Pork.

<https://pork.ahdb.org.uk/media/273607/enrichment-guide-2017.pdf>

Mae erfyn ar-lein WebHAT am frathu cynffonnau ar wefan AHDB yn rhoi cyngor ar asesu'r risg ac yn cynnig atebion posibl:

pork.ahdb.org.uk/

Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan y Farewell Dock Project: <https://farewelldock.eu/>

Cyfarpar awtomataidd a mecanyddol

Cyngor gan HSE gan gynnwys Farmwise – guide to health and safety:

<http://www.hse.gov.uk/agriculture/>

[hsagriculture.htm](http://www.hse.gov.uk/agriculture/hsagriculture.htm) Feed water and other substances:

Adroddiad RAFT 2017 yr AHDB ar ddŵr:

https://pork.ahdb.org.uk/media/274247/51510014_ft014RAFT-solutions-ltdwater-report_approved_september-2017.pdf

Rheoli a lleihau'r risg o frathu cynffonnau:

Adeiladwaith y gorlan a glendid

Mae AssureWel wedi cynhyrchu canllaw ar dail ar y corff.

<http://www.assurewel.org/pigs/manureonthebody>

Moch sy'n cael eu cadw mewn systemau awyr agored:

Canllaw'r CRRU ar reoli cnofilod:

<https://www.thinkwildlife.org/code-of-bestpractice/>

Dyddiad cyhoeddi: XX XX XX

DRAFT